ECO'R WYDDFA

RHIF 292 Medi 2002 PRIS 40c

I Angharad

Agoraist len d'orffennol – yn gywrain
Mewn geiriau dychmygol.
A gwefr perthyn yw'r gyfrol,
I ddoe hen ach, na ddaw'n ôl.

Richard Llwyd Jones

Llwyddiannau Lu

Bu Eisteddfod Genedlaethol yn Nhyddewi yn arbennig o lwyddiannus i ardal yr ECO. Mae llawer o bobl yr ardal wedi cystadlu, ac wedi ennill gobrau yno. Llongyfarchiadau i bawb o'r Fro fu'n cymryd rhan.

Ymysg yr enillwyr, aeth pedwar o brif wobrau llenyddol yr Eisteddfod Genedlaethol i bobl sydd â chysylltiad â bro'r Eco.

Yn seremonïau'r Gadair, y Goron, y Fedal Ryddiaeth a Gwobr Goffa Daniel Owen roedd Eco'r Wyddfa yn atsain ar lwyfan Tyddewi.

Tra bod pobl yn synnu ar lwyddiant tîm pêl-droed Arsenal yn cipio'r dwbl llynedd, neu Margaret Thatcher yn ennill tri etholiad cyffredinol – fe gurodd ein hardal ni y cyfan gan gipio pedair o brif wobrau'n prifwyl.

Cafodd dau o'r enillwyr eu haddysgu yn Ysgol Brynrefail – a talodd y ddau ohonynt deyrnged i'w hathrawon Cymraeg am eu hysbrydoli i ddechrau ysgrifennu.

Enillodd Angharad Price, o Fethel, y Fedal Ryddiaeth – y tro cyntaf iddi ennill un o brif wobrau yr Eisteddfod Genedlaethol.

Hunangofiant dilys neu ddychmygol oedd thema y gystadleuaeth, ac enillodd Angharad, sydd erbyn hyn yn gymrawd ymchwil yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Caerdydd, ganmoliaeth uchel gan y tri beirniad am ei chyfrol sy'n cyfuno ffaith a dychymyg i adrodd hanes ei theulu yn negawdau'r Ugeinfed Ganrif.

Yn ystod y seremoni, dywedodd yr Archdderwydd Robyn Léwis – ar ôl iddo gael ei gywiro ganddi mai yn Llanrug, nid Llanrwst, mae Ysgol Brynrefail – bod Angharad yn diolch i'w hathrawon Cymraeg, Alwyn Plemming ac Esyllt Maelor, am ei hysgogi i sgwennu.

Gwyneb mwy cyfarwydd ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yw Eirug Wyn, enillydd Gwobr Goffa Daniel Owen. Dyma'r ail dro i Eirug, gafodd ei fagu rhwng Deiniolen a Dinorwig, ennill y wobr hon.

Er ei fod yn Ysgol Brynrefail genhedlaeth cyn Angharad, roedd Mr Plemming yn athro Cymraeg iddo yntau hefyd. Roedd Eirug ar ei ddiwrnod cyntaf yn yr ysgol a Mr Plemming yn dechrau ar ei yrfa yno ar yr un diwrnod.

Dywedodd Eirug, sydd hefyd wedi ennill y Fedal Ryddiaith ddwywaith, bod ei ddiolch yn fawr i'r athro Cymraeg am ei lwyddiant llenyddol.

'Roedd o'r math o athro yr oeddwn i wrth y modd efo fo,' meddai. 'Roedd o'n gwneud gwersi Cymraeg yn ddifyr, roedd o'n fywiog ac roedd 'na hwyl i'w gael – does na ddim dwywaith mai fo oedd y prif symbyliad i mi fynd ati i sgwennu.

'Roedd o'n ffond iawn o ymadroddion – roeddat ti'n cael dau farc coch ar ochr y dudalen ganddo am ddefnyddio un. Roedd gen i gêm oeddwn i'n chwarae hefo fi fy hun i weld faint o farciau coch allwn ei gael hefo bob gwaith cartref.'

Dywedodd Eurig, sydd yn awr yn byw yn y Groeslon, ei fod o'n hogyn diog yn yr ysgol ymhob pwnc heblaw Cymraeg a Mathemateg.

Mae o'n dal mewn cysylltiad hefo Mr Plemming hyd heddiw – ac yn cael cerdyn llongyfarch ganddo bob tro mae'n cael gwobr.

'Mi wnaeth o yrru un y tro yma yn dweud "Mae'n boring sgwennu un arall o'r rhain i chdi",' meddai Eirug.

(Mwy o luniau ar y dudalen ganol)

ECO'R WYDDFA

RHIF 292
MEDI

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a
Hydref	Medi 16	Medi 26	Penisarwaun	Mrs Ann Evans
Tachwedd	Hydref 21	Hydref 31	Llanberis	Mr Gwilym Evans
Rhagfyr	Tachwedd18	Tachwedd 28	Caeathro	Mr Clive James

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen (871550)

TRERFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650788)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Elfion Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, Medi 16
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, Medi 26

Llythyrau

Llwyn Eithin,
Bethel
Gwynedd LL55 1AX
Tel: 01248/670102
e-bost:jenkin@llwyneithin.fsnet.co.uk

Annwyl Olygydd

Eco'r Wyddfa i'r Dall a'r Rhannol Ddall

Ers blynyddoedd gall y Dall a'r Rhannol Ddall dderbyn copi o'r Eco bob Mis wedi ei ddarllen ar Dâp Caset a'i ddosbarthu gan Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru, Bangor. Darllenir gan dîm bychan o wirfoddolwyr yma yn Llwyn Eithin bob Mis.

Apêl sydd gennyf at unrhyw un fuasai a diddordeb ymuno â'r tîm bychan hwn i ddarllen yr Eco. Os oes gennych ddiddordeb gwybod mwy, cysylltwch a mi yn y cyferiad uchod.

Yn gywir
Jenkin M. Griffiths

Rygbi Iau yng Nghaernarfon

Gyda Cymru yn chwarae yn erbyn Rwmania ar y Cae Ras yn Wrecsam ar y pen-wythnos cyntaf ym mis Tachwedd, mae'n amserol meddwl am hyfforddiant ac ymarfer rygbi yng Nghaernarfon. Eleni, mae Clwb Rygbi Caernarfon yn cynnig y sesiynau canlynol ar Y Morfa, ger Ysbyty Eryri.

Hogia (Blynyddoedd 12/13):
Pob nos Fawrth a nos Iau rhwng 7.00 a 8.30;

Hogia (Blynyddoedd 7-11):
Pob nos Fawrth rhwng 6.00 a 7.30

Hogia a Genod Iau Blynyddoedd 2-6)
Pob nos Wener o 30 Awst rhwng 6.00 a 7.00;

Genod Iau (Blynyddoedd 7-11)
Pob nos Iau o 5 Medi rhwng 6.00 a 7.30.

Croeso i aelodau newydd a hen gyfeillion.

Pobol tu ucha'r Giât

Deallir fod yr argraffiad ychwanegol o'r llyfr 'Pobol tu ucha'r Giât' gan Rol Wiliams ar gael yn y siopau yn awr. Yn y gyfrol ceir hanes hen deuluoedd y gymuned unigryw a arferai fyw yng Ngwaun Cwm Brwynog ar lethrau isaf yr Wyddfa.

Yn sgil poblogrwydd y gyfrol bu'n ofynnol i Wasg Pantycelyn, Caernarfon gyhoeddi yr argraffiad ychwanegol yma.

Mae Henaduriaeth Arfon wedi gwahodd 'Antur Waunfawr' i brynu safle Capel y Waun am £50,000, yn y gobaith y bydd yr adeilad yn parhau i gael ei ddefnyddio er budd y gymdeithas.

Sefydlwyd achos y Methodistiaid Calfinaidd yn y Waunfawr yn 1746, ac fe adeiladwyd y Capel cyntaf ar y safle yma yn 1785. Dros lawer o flynyddoedd dyma ganolfan grefyddol a diwylliannol y cylch, ac yma y sefydlwyd yr ysgol ddyddiol – yr Ysgol Frytanaidd, fel ei gelwid – cyn sefydlu y Bwrdd Ysgol.

Ychydig ddyddiau cyn gadael am wyliau yn Sbaen, lle bu farw, mynegodd y ddiweddar Mary Vaughan Jones ei phryder ynglŷn â'r sefyllfa a'i dyhead, fel hanesydd, y byddai traddodiad y lle o roi gwasanaeth i'r gymuned yn parhau. Mynnai y dylid sicrhau meddiant o'r safle trwy sefydlu cronfa 'Cyfeillion yr Antur' gan wneud addewid y byddai hi yn cyfrannu £1,000.

Ein bwriad yw ceisio prynu yr eiddo ac, yng nghyflawnder amser, ymgeleddu'r adeilad a'i addasu fel adeilad aml-bwrpas i ddibenion 'Antur Waunfawr' i'w galluogi i ddatblygu eu gwaith yn y gymuned. Byddai yn ffordd ymarferol o dalu teyrnged a dangos ein gwerthfawrogiad o'r oes o waith a gwasanaeth roddodd Mary Vaughan i'w bro ac i Gymru.

Tybiaf y gall fod llawer o hen drigolion yr ardal, cyn-ddisgyblion o Ysgol Brynrefail, a chyfeillion wnaeth Mary yn ystod ei theithiau, fyddai yn awyddus o fod yn gysylltiedig a'r bwriad.

Pe byddech yn awyddus i gyfrannu i'r gronfa, buaswn, ar ran Cyfarwyddwyr 'Antur Waunfawr', yn falch o dderbyn gair oddi wrthych – boed y cyfranniad yn fach neu fawr.

R. GWYNN DAVIES.
'Antur Waunfawr',
Waunfawr,
Gwynedd. LL55 4BJ.

Dewch i'r ganolfan newydd am fargeinion dodrefn

CM DISCOUNTS
LLANRUG
yng **Nghapel Mawr**
LLANRUG
Ffôn: 674141
Ar agor: Llun – Sad 10-6; Sul 10-4
Rygiau, Cabinets, Byrddau, Cypyrddau dal llyfrau, Desgiau, Cadeiriau, Soffas, Gwelyau ayyb

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn eich cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn:
(01286) 675754

CASTELL BOWNSIO AR GYFER POB ACHLYSUR
Down â fo atoch a'i nôl wedyn
Ffôn: 871782

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE
yn LLANRUG
ar gyfer eich holl anghenion
- **Trin cyrff ceir**
- **Gwaith Mecanyddol**
- **Gwasanaeth/Service**
- ***Valleting***

(01286) 870814

Adroddiad y Cadeirydd

Trist,unwaith eto, ydyw gorfod cofnodi fy siom yn y gefnogaeth sydd yna yn yr ardal i gyfarfod blynyddol Eco'r Wyddfa. Dim ond chwech gan gynnwys mi fy hun a drodd i fyny. O gofio fod dros ddwy fil o gopïau yn cael eu gwerthu (un o'r gwerthiannau uchaf drwy Gymru) golyga fod oddeutu pum mil yn ei ddarllen. Dirgelwch llwyr i mi felly yw'r ffaith mai dim ond chwech drodd i fyny i'r cyfarfod, a swyddogion y papur oedd pump o'r rheini! Mae dau o'r swyddogion oedd yn bresenol, John Roberts a Goronwy Hughes wedi cyflawni eu dyletswyddau (swyddog hysbysebion a trefnydd ariannol) ers sefydlu y papur chwe mlynedd ar hugain o flynyddoedd yn ôl. Gwn hefyd fod sawl gohebydd a dosbarthwr/wraig pentrefol a ffotograffydd wedi cyflawni eu dyletswyddau'n ddi-dor. Mawr yw fy niolch iddynt – rhain, yn wir, yw asgwrn cefn y papur.

Brithwyd y flwyddyn a aeth heibio gyda nifer o broblemau ac anhawsterau a fu'n rhaid i 'bwyllgor llywio' yr Eco eu hwynebu a cheisio eu datrys. Ond y sioc fwyaf o bell ffordd oedd cael ar ddeall fod y ddau Olygydd am ddirwyn eu gwasanaeth i ben. Bu John Pritchard ac Iwan Roberts yn weision ffyddlon a diwyd iawn i'r Eco am gyfnod o ddeng mlynedd. Gwnaeth y ddau eu gwaith yn ddistaw a dirwgnach. Gwn o brofiad y gall y gwaith fod yn llafurus a thrwm ar brydiau ac yn ombeidus o unig, ond gwn hefyd, o gydweithio mewn tîm, y gall fod yn hynod bleserus a chyffrous. Diolchaf yn ddiffuant iawn i'r ddau ar ran y papur a chwithau'r darllenwyr. Mae Y Parchedig John Pritchard wedi dirwyn ei wasanaeth i ben eisoes, ond yn parhau gyda'i golofn fisol 'Un funud fach...' Mae Iwan Roberts wedi cytuno i gynnal yr olygyddiaeth am gyfnod byr er mwyn rhoi cyfle i ni gysylltu â nifer o drigolion yn y fro a fyddai'n fodlon ymgymeryd â'r gwaith. Gwnaed apêl am waed ifanc – ac fe atebwyd y gri. Mae tua saith neu wyth wedi dangos diddordeb mewn ffurfio tîm golygyddol. Nid yw dyletswyddau na chynlluniau y tîm wedi ei lunio eto. Mae Iwan wedi cytuno i'w cynorthwyo dros gyfnod.

Gwn fod sawl swyddog a gohebydd wedi datgan ers peth amser bellach eu dymuniad i gael eu rhyddhau o'u dyletswyddau. Fel Cadeirydd rwy'n hynod ddiolchgar iddynt am barhau ond yn apelio'n daer ar i unrhyw un sydd â diddordeb yng ngweithgareddau'r Eco gysylltu â mi neu unrhyw aelod arall o'r tîm golygyddol. Mae'r Eco angen cefnogaeth o amrywiol gyfeiriadau. Mae'n fwriad gennym i atgyfnerthu y pwyllgor llywio hefyd.

Mae sawl aelod ffyddlon o dim gwirfoddolwyr Eco'r Wyddfa wedi bod yn wael yn ystod y flwyddyn – rhai eraill gydag anwyliaid yn wael – ac wedi gorfod terfynu eu gwasanaeth. Fy niolch diffuant iddynt i gyd. Mae'n rhaid i mi enwi un, gan ei bod yn un o swyddogion yr Eco. Bu Mrs. Olwen Llywelyn yn gofalu am ddyddiadur yr Eco am flynyddoedd cyn ymgymeryd â'r gwaith o bostio rhifynnau i sawl gwlad. Cafodd ei tharo'n wael yn ystod y flwyddyn a mawr fu ein pryder amdani. Ond mae arwyddion pendant ei bod ar wella a'n gobaith yw y bydd yn y dyfodol yn ail gydio yn ei dyletswyddau. Mae sawl gohebydd wedi gwella'n ystod y flwyddyn ac wedi dechrau'n ôl i wasanaethu eu pentrefi.

Carwn ddiolch i'r colofnwyr sydd yn cyfranu'n selog a diddorol o fis i fis. Mae cryn edrych ymlaen at golofn Ysgol Brynrefail a mawr yw ein diolch i Mrs. Mary Wyn Jones a'i thîm o ieuenctid am y cynnwys. Mae fy niolch i'w phriod, Richard Ll. Jones yn fawr hefyd gan ei fod yn cynnal y golofn chwaraeon ers blynyddoedd ac yn trefnu y gemau 5 bob ochr poblogaidd.

Diolch hefyd am y croeso gefais gan Gareth Jams yn Menter Fachwen. Mae Gareth yn awyddus iawn i'r Fenter fod yn rhan o'r gymuned leol ac yn barod i wasanaethu a chynorthwyo cymdeithasau o'i mewn. Yn sicr, bydd aelodau o'r tîm golygu newydd yn galw draw i weld y cyfleusterau drostynt eu hunain.

Diolch unwaith eto i bawb a fu'n cynorthwyo'r Eco yn ystod y flwyddyn.

Arwel Jones
Cadeirydd
Pwyllgor Llywio Eco'r Wyddfa

SPAR

Y STORFA
LLANRUG
(Richard a Meirwen Williams)
Ffôn: (01286) 672790
Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

Côr y Waun

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y côr ar nos Sul 30 Mehefin. Derbyniwyd yr adroddiad ariannol gan y Trysorydd, Mr Dewi Jones, a chrynodeb o weithgareddau'r flwyddyn a fu gan y Cadeirydd, Mr Gwynn Davies. Etholwyd swyddogion gyda Mr John Gwynedd yn Gadeirydd am y flwyddyn nesaf.

Mae'r côr bellach gydag oddeutu 40 o aelodau ac yn cyfarfod bob nos Sul yng nghanolfan Waunfawr. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu'r côr yn cynnal nosweithiau, yn amrywio o ddifyrru ymwelwyr yng ngwesty'r Fictoria yn Llanberis i gyngherddau yn Eglwys y Santes Fair yng Nghaernarfon, a chyfrannu ar C.D. y pentref. Cafwyd nosweithiau difyr yn canu carolau yn yr Antur, Cymanfa NSPCC ac mewn cartrefi henoed lleol dros gyfnod y Nadolig. Cynhaliwyd cinio Nadolig y côr yng ngwesty Eryl Môr gydag adloniant annisgwyl gan John Gwynedd a Doug (annisgwyl i Doug beth bynnag!). Noson gofiadwy arall oedd cymryd rhan yng nghymanfa flynyddol Capel y Beirdd yn Eifionydd, yn gofiadwy o ran y canu a'r lluniaeth i ddilyn. Bu'r côr yn cystadlu yn Eisteddfod Môn eleni ac roedd y wobr yn gysur i'r Trysorydd... hyd nes i'r merched ddechrau sôn am brynu dillad newydd.

Mae'r côr eisoes gyda nosweithiau wedi eu cynllunio ar gyfer Medi'r 5ed a Hydref 10fed (gwesty'r Fictoria) a chyngerdd gyda phlant Ysgol y Waun a Hogiau'r Wyddfa ar Hydref 11eg yng Nghanolfan Waunfawr gyda'r elw i Tŷ Gobaith. Wedi dweud hyn mae'r côr ar gael i gynnal nosweithiau, ac os ydych â diddordeb, cysylltwch â'r Arweinyddes, Mrs Gwenda Griffiths (01286 650 347) neu'r Ysgrifennydd, Mr Emyr Roberts (01286 650 128).

Os oes gennych lais bas a diddordeb mewn ymuno â'r côr cofiwch gysylltu yn yr un modd neu droi i mewn i'r ymarferion sy'n ail ddechrau ar nos Sul Medi'r 1af am 7.30 o'r gloch – cewch groeso cynnes.

Diolch yn fawr.

Emyr Roberts.

DRAENOG

ACCENT Properties

DINORWIG

A detached cottage residence situated in one of the most beautiful rural areas of Snowdonia. Situated ina hillside position with magnificent views down to Padarn Lake and beyond to the mountains including Snowdon. The property comprises huge lounge and upper level kitchen with high beamed pitched ceiling, three bedrooms, bathroom, shower room. Ample parking. Patio and garden.

£169,500 Freehold
– HEAVEN ON EARTH

Ymddangosodd yr hysbyseb hon yn yr hen bapur gwerinol hwnnw Dail y Post yn ystod mis Awst. Cwmni o Fae Colwyn sy'n gwerthu. Cant saith deg o filoedd o bunnau am 'Nefoedd ar y Ddaear'. Trueni iddyn nhw anghofio tynnu sylw at y ffaith mai Cymraeg yw iaith y nefoedd, hefyd.

ARVONIA
LLANRUG Ffôn: 01286 675175
GWYLIAU CARTREF A THRAMOR
Cwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o redeg Pecynnau Gwyliau oll-gynhwysol

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol

Gwasanaeth Trylwyr gan y bobl BROFFESIYNOL
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau i'ch CAR. Cystal â Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych CHWI yn ei yrru, o Audi i Zastava

MOT · AA · RAC

GEMINI
Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW
YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH

O SIAMBAR SELWYN

Mae'n dibynnu ymhle rydach chi'n sefyll ar y briffordd ym Methel, rhwng yr ysgol a Thyddyn Gwndwn, fe allech ddweud hefo I.D. Hooson:

'Mae'r Bedol ar yr aswy
A 'Bethel ar y dde.

Dwi'n gyfarwydd â'r ddau adeilad, ac yn teimlo yr un mor gartrefol yn y naill a'r llall. Mae'n wir, erbyn heddiw, bod 'na fwy o gynulleidfa yn y Bedol na sy 'na yn yr hen gapel a roes yr enw ar yr ardal pan agorwyd o yn 1810. Yn 1901 yr adeiladwyd y capel fel ag y mae o heddiw a sefydlydd Eisteddfod y Plant, Rhys J. Huws, oedd y gweinidog ar y pryd.

Dywedir i'r capel gostio £2,500 ac fe gostiodd y Festri £450, a'r gost am adeiladu Llys Myfyr oedd £725. Cyfanswm o £3,675. Talwyd yr holl ddyledion heb Basâr, cyngerdd na darlith. Trwy gyfraniadau rheolaidd yr aelodau, sef gweithwyr cyffredin (chwarelwyr bron i gyd) y talwyd y cyfan.

Mewn llythyr a dderbyniais gan y diweddar Mr Ffowc Williams, Llandudno yn 1966 mae o'n datgan:

'Mae gen i go' byw iawn am Rhys J. Huws yn cyhoeddi ar nos Sul yn yr hen gapel na fyddai na seiat ar ôl yr oedfa – ond fod eisiau i bob aelod a gwrandawr aros ar ôl, gan fod ganddo fater pwysig i'w drafod. Cofiaf ef yn mynd o amgylch gan gyfarch pob un wrth ei enw, a gofyn iddyn nhw,

'Os penderfynwn ni godi capel newydd, a wnewch chi eich gorau i wneud eich ran i ddwyn y baich?' Yna, aeth yn ôl i'r sêt fawr a chyhoeddi,

'Dyna fo, mae pawb wedi addo i wneud ei orau. Mae gen i un amod – rhoddion gwirfoddol yn unig a ddefnyddir i glirio'r gost.' Cytunwyd, a dyna fu'r hanes o'r dechrau i'r diwedd. Roedd ef, (RJH) wedi mynd i Fethesda, ac wedyn i Glanaman cyn i hanner y gost gael ei chlirio, ond roedd na ormod o barch i'r addewid a wnaed iddo i newid dim ar y drefn o dalu am y Capel.'

Roedd y Capel newydd yn enwog am ei Gerddorfa, ac mae gen i gof da am rai fel Dic Tyddyn Gwndwn, Awel (chwaer fy nhad) a Hiwi Benrhos a'i ffliwt, fel rhai o ffyddloniaid y Gerddorfa.

Ffowc Williams eto:

'Yn y capel newydd y cynhaliwyd yr Eisteddfod gynta'. Nid cyfansoddi cerdd a wnaed i gynnig am y Gadair ond astudio barddoniaeth gaeth. Cofiaf un flwyddyn i mi ddysgu Cywydd y Farn Fawr, Goronwy Owen, a pha gynghanedd oedd ymhob llinell.'

Yn Cronicl Eglwys Bethel, Mawrth 1903, mae RJH yn datgan:

'Bu Eisteddfod y Plant yn llwyddiant eithriadol. Mawr ganmolid ansawdd y cyfansoddiadau llenyddol, ac roedd yr adrodd a'r canu yn arbennig o dda. Ond, er cystal fu'r Eisteddfod eleni, y mae gennym gynllun i gael ei rhagorach o lawer y flwyddyn nesa'.'

Dyna ddull RJH. Er fod Eisteddfod 1903 yn llwyddiant eithriadol, yr oedd yn awyddus i ragori arni y flwyddyn ddilynol, ac fe droai pob carreg er mwyn gwneud hynny.

Ond ys gwn i pa ymateb a gafodd yr apêl a ymddangosodd yn y Cronicl 1904, gan drigolion Bethel, a pha ymateb a geid i apêl gyffelyb heddiw, o gofio am lwyddiant tîm y pentref yn ennill Cwpan Timau y Pentrefi.

Dyma'r apêl:

'Gan yr ymdrechir darparu moddion adloniant dyrchafol i'r bobl ifanc, mawr hyderir na chychwynir mo Glwb y Bêl-droed eleni. Apelir yn daer at aelodau crefyddol Bethel i ymwrthod â'r chwarae hwn, am y gwyddom ei fod yn darostwng moesau ac yn gerwino iaith ein pobl ifanc.'

Byddai, mi fyddai apêl fel'na yn destun trafodaeth ar Stondin Sulwyn heddiw.

Nid y Bedol ydi'r dafarn gynta' yn hanes Bethel. Na, tua 1830 ar yr union dir bron, roedd 'na ŵr o'r enw Wil Ffowc yn cadw tafarn yn yr hen dyddyn, Blaen Rhos (cartref Ffowc Williams y cyfeiriais ato uchod). Ceir stori ddiddorol ar dudalen 78 o *Hen Atgofion* W. J. Gruffydd am un Owen Ffowc wedi cael mwy na llond ei geubal yn Nhafarn Blaen Rhos.

Fe geisiwyd agor tafarn yng nghanol pentre Saron tua 1870, yn yr adeilad a adwaenir fel Gwynant (hen siop James Davies) ond, gan i'r ardalwyr sefyll yn erbyn, a chael enwau ar ddeiseb, ni lwyddwyd i gael trwydded.

Yn y Bedol bydd aelodau a chefnogwyr tîm pêl-droed y pentre yn ymgynnull, a synnwn i ddim na fyddai Rhys J. Huws, petai o yn weinidog ym Methel heddiw, yn ymfalchïo yn llwyddiant y tîm, ac yn dymuno pob llwyddiant iddyn nhw ar eu maes newydd.

Fy nymuniad innau ydi cael eu derbyn nhw i Gynghrair Gwynedd ymhen y flwyddyn. Ydi,

Mae'r Bedol ar yr aswy
A Bethel ar y dde'.

Ta fel arall ma' hi dudwch? Ta waeth, dwi'n eitha selog yn y ddau le.

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai

Croeso cynnes i ddarllenwyr Eco'r Wyddfa i dymor newydd Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai. O fis Medi hyd fis Mawrth 2003, bydd chwe chyfarfod ar drydedd nos Fawrth y mis, gyda darlithiau neu sgyrsiau diddorol ar bob agwedd ar lenyddiaeth.

Yn y cyfarfod cyntaf, Nos Fawrth, Medi 17, y siaradwr gwadd yw'r Prifardd Myrddin ap Dafydd, enillydd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi eleni. Cafodd 'Pawb yn y Pafiliwn' glod uchel iawn am ei gasgliad o gerddi ar y testun 'Llwybrau'; yn ôl un o'r beirniad, 'Dyma waith crefftwr a bardd nodedig a roes inni gyfres ysgytwol o gerddi...'

Cynhelir y cyfarfodydd yn Stafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon am 7 o'r gloch. Os hoffech gael rhaglen y tymor, ffoniwch 01286 674478 neu e-bost: llinoscbt openworld.com

Mae'r tâl aelodaeth am y flwyddyn yn £6.00, neu £1.50 am ddarlith achlysurol. Bydd y y Cylch yn falch iawn o gael croesawu aelodau newydd.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyr

GARETH GRIFFITH
A'I GWMNI
Cyfreithwyr
6 Pepper Lane, Caernarfon, LL55 1RG
Tel: **67 68 69** Ffacs: 67 77 05
E-bost: ggriffith.ggco@virgin.net

• *Prynu a Gwerthu Tŷ* • *Ewyllysiau a Phrofiant*
• *Hawliadau Damweiniau* • *Prydles ac Eiddo*
• *Cyfreithiad Troseddol a Sifil* • *Deddf Drwyddedu*
• *Ysgariad a Gwarchodaeth Plentyn*
• *Perchennog a Thenant*
• *Pob Gwaith Cyfreithiol Cyffredinol*

STEPHEN JONES
Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco
(01286) 870 870
(01286) 872 491
(07770) 265 976
Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: (01286) 870202
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

Un funud fach

'Nôl i'r Ysgol

'Fuo ni yn lan y môr.' 'Fues i'n Sbaen.' 'Aethon ni i'r Steddfod.' 'Ges i bicnic ar ben Wyddfa.' 'Fuo ni'n nhŷ nain.' Yr wythnos nesaf bydd miloedd o blant, ar ddechrau tymor newydd, yn dweud hanes yr haf wrth ffrindiau ac athrawon. Mae'r gwyliau bron ar ben, a chwech wythnos wedi gwibio'n gyflym heibio. Daw popeth 'nôl i drefn yn fuan iawn.

Ond nid yn Soham. Fydd Holly a Jessica ddim yn dychwelyd i'r ysgol. Bu'n wyliau hir iawn yno. Bu'n wyliau alaethus o drist. Llofruddiwyd dwy hogan fach deng mlwydd oed, a bu'r stori frawychus yn llenwi'r papurau newydd am dair wythnos a mwy. Bydd y flwyddyn ysgol wedi cerdded ymhell cyn i'r sôn am Soham dawelu. Gweddïwn dros deuluoedd y ddwy, a thros eu ffrinidau a'u hathrawon a'u cymdogion a phawb a ddioddefodd oherwydd yr hyn a ddigwyddodd iddynt.

Ac wrth weddïo, er gwaetha'r holl ddychryn a'r ofn, diolchwn fod y rhan fwyaf o blant bach gwledydd Prydain yn ddiogel gartref, yn yr ysgol, mewn parc chwarae, ac ar y stryd. Wrth gwrs y mae angen bod yn wyliadwrus a bod yn ymwybodol o bob perygl posibl. Wrth gwrs y mae angen gwneud popeth i sicrhau diogelwch plant ble bynnag y bônt. Ond gwnawn hynny gan gofio mai prin, diolch i Dduw, yw'r erchyllterau a daflodd eu cysgod blin dros Soham. Caiff miloedd ar filoedd o blant ofal a chariad a diogelwch gydol y tymor a'r flwyddyn newydd hon.

Ond wrth ddiolch am hynny ni feiddiwn wadu'r gwir plaen dychrynllyd fod rhywun neu rywrai wedi gallu lladd dwy hogan fach. Bydd y drefn gyfreithiol yn ceisio profi pwy a sut a pham y gwnaed hynny. Ond mae yna Drefn arall sy'n dweud eisoes wrthym pam y lladdwyd Holly a Jessica. Mae'r Drefn honno'n cyfeirio at ddrygioni dyn, ac yn dweud mai'n methiant i barchu Duw a'i gyfraith sy'n arwain at bob math o bechodau yn ein bywyd bob dydd. A llofruddiaeth, wrth gwrs, yw un o'r pechodau gwaetha i gyd. Dechrau pob drwg yw'r agwedd anghywir at Dduw a'i ffyrdd. Ac mor bwysig felly yw cofio mai rhan o'r Drefn hefyd yw gwahoddiad Duw i ni i dderbyn ganddo faddeuant am bob bai ynghyd â nerth a gras i fod yn ufudd i'w orchymynion.

Boed i Dduw gysuro a chynnal teuluoedd Soham trwy'r misoedd anodd sy'n dod.

JOHN FRITCHARD

Caffi Coffa, Llanrug

Yn y llun gwelir criw o blant o Fethel yn cymryd rhan yn y sesiwn Pizza yng Nghaffi Coffa, a gynhaliwyd bob dydd Mawrth yn ystod yr haf: Angharad Price, Angharad Morris, Greta Fflur, Bronwen Price, Catrin Jones a Rhidian Price

Bu misoedd yr haf yn gyfnod braf yng Nghaffi Coffa, Ffordd yr Orsaf, Llanrug – un o fentrau cymunedol Menter Fachwen. Fe sefydlwyd y Caffi ym mis Mai eleni, ac mae'n dechrau ennill ei blwyf fel lleoliad cyfforddus a chroesawgar i bobl Llanrug a phentrefi cyfagos.

Fe sefydlwyd Menter Fachwen ddeuddeg mlynedd yn ôl, a bu'n eithriadol o lwyddiannus yn ei nod dros y blynyddoedd. Prif amcan y Fenter yw creu gweithlu integredig lle mae'r cyhoedd yn ymwneud â phobl efo anawsterau dysgu yn rhinwedd y gwaith a wneir ganddynt, ac heb ragfarn am eu hanabledd. Yn ymarferol mae hyn yn golygu bod Menter Fachwen yn datblygu amryw fentrau cymdeithasol lle bod pobl hefo anawsterau dysgu yn medru gweithredu mewn amgylchedd gwaith naturiol.

Rhai o brif nodweddion amgylchedd gwaith naturiol yw:

- Pwyslais ar wasanaethu cwsmeriaid
- Disgrifiad swydd i bawb
- Cyfres o dasgau i'w cyflawni er mwyn cynhyrchu incwm

Yn ogystal a hyn, mae pob busnes yn

- Anelu i gyrraedd targedau ariannol eu hunain
- Yn cynnal cyfarfodydd busnes cyson

Mae'n ddealladwy bod cyflawni gwaith busnes bychan tra'n gweithio hefo bobl gyda anawsterau dysgu yn anodd, ac fe roddir cymorth i bob menter gymdeithasol drwy:

- Cefnogaeth adran bersonel i sicrhau y delir a phroblemau personol unigolion, fel na fydd hyn yn amharu ar y lle gwaith.
- Cefnogaeth rheoli a gweinyddol.
- Cefnogaeth i ddatblygu gweithlu integredig drwy wasanaeth hyfforddwyr yn y gweithle.

Ers ei sefydlu yn Fachwen, mae mentrau cymunedol Menter Fachwen wedi cynyddu'n sylweddol. Erbyn hyn mae wyth o fentrau, sef:

- Gweithdy Craig yr Wylan, Fachwen
- Caffi Padarn, Fachwen
- Canolfan goedwig a bywyd gwyllt Cwm Derwen, Fachwen
- Garddwyr Eryri
- Canolfan Garddio Ty Gwydr, Cwm y glo
- Caban-y-cwm, Cwm y glo
- Ffreutur Bach, Cibyn

A'r diweddaraf,

- Caffi Coffa, Llanrug

Mae Caffi Coffa a leolir yn y Sefydliad Coffa, Ffordd yr Orsaf, Llanrug ar agor bob dydd o Ddydd Llun - Dydd Gwener.

Croeso i bawb

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

G. EVANS

ARBENIGWYR TRWSIO CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed: Gatiau, Ffensus ac ati am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

EMYR JONES

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);
YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu
YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248) 714043
neu Caernarfon
Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

CHWILOTA

Cysylltiadau Llanberis

Aeth y ddeufis diwethaf heibio fel y gwynt, a dim arwydd o haf ar y gorwel! Serch hynny, rhoddodd y tywydd diflas gyfle i amryw o ddarllenwyr anfon gwahanol bytiau ynglyn â nifer o eitemau a ymddangosodd yn yr 'Eco' dros y misoedd diwethaf. A chafwyd traethodau hyd yn oed gan ambell un! Yr hyn sy'n ddiddorol yw fod y mwyafrif ohonynt â chysylltiadau â Llanberis. Felly, yn ôl traddodiad beirniaid cenedlaethol, dyma ddidoli'r cynhyrchion, nid o reidrwydd yn nhrefn teilyngdod.

Ffotograffydd o Lanberis

Mae'n siŵr fod miloedd o bobl dros y ganrif ddiwethaf wedi prynu cardiau post yn dangos golygfeydd o ardal Eryri. Mae'r un mor sicr fod yr enw R. G. Symonds ar ganran helaeth ohonynt hefyd. Ffotograffydd a sefydlodd ym mhentref Llanberis oedd Symonds, ond a aned yn Lloegr. Mae Eifion Roberts o Lanberis yn gasglwr brwd o hen luniau o'r pentref, gan gynnwys cardiau post. Mae'r llun a atgynhyrchir ar y dudalen hon yn ymddangos ar gerdyn post sydd yn ei feddiant. Yr enw wrth y llun yw 'R.G.Symonds, APS, Llanberis'. Nid yw Eifion yn sicr ai cymeriadau o fro'r 'Eco' sydd yn y llun, ond meddai; *'Tybiais i mi weld llun, yn rhywle, yn cynnwys y wraig yn y canol; neu efallai i mi weld ei thebygrwydd yn un o'i disgynyddion.'* Os oes unrhyw un o'r darllenwyr â gwybodaeth am leoliad y llun neu am y cymeriadau a ddarlunir ynddo, yna cysylltwch.

Mae Iwan Roberts o Lanrug, hefyd yn gasglwr cardiau post, ac y mae hefyd wedi bod yn chwilio peth o gefndir y ffotograffydd Symonds. Efallai y cawn fwy o'i hanes yn un o rifynnau nesaf yr 'Eco'.

Siopau Llanberis

Yn dilyn yr erthyglau am yr adeiladau yng nghyffiniau Becws Eryri a'u gwahanol ddefnydd fel siopau, daeth llythyr cynhwysfawr gan Mr John David o Borthaethwy, eto'n hel atgofion am rai o'r siopau yn yr ardal. *'Diddorol,'* meddai, *'oedd cael hanes cefndir Becws Eryri a'r lluniau o'r adeiladau o gwmpas. I mi, "Siop Gracie" (Waterfall View, heddiw) oedd Siop Evan Wilson. Gweithio i John bach, tad Benson, oedd Gracie. Bu yno am flynyddoedd.'* Mae hefyd yn cofio siop esgidiau yn ystafell ffrynt Tŷ Eryri, a siop cigydd y drws nesaf, ar agor bob dydd Gwener a dydd Sadwrn, ac am ddyddiau cyn y Nadolig. Bob Jones, fferm Ty'n Twll, Ffordd Bethel, Caernarfon oedd yn ei chadw. *'Bu Bob Jones yn gefnogol iawn i dyddynwyr Nant Peris a Llanberis, yn prynu eu defaid ac ŵyn. Yn Ffair Nant ar Fedi 18fed bob blwyddyn, byddai'n brynwr selog yn arwerthiant y bore.'* Mae'n nodi mai Bob Jones werthodd y busnes cigydd i Ioan Roberts o'r Fachwen, y cafwyd ei hanes yn y rhifyn diwethaf o'r Eco.

'Rhwng Siop Gracie a siop y cigydd roedd mynedfa lydan i garej yn y cefn. Byddai paraffin yn cael ei werthu yno. Arferai Henry Charles, Cae Esgob, gadw ei gar cyntaf yn y garej, gan nad oedd ffordd addas i fynd â'r car i Gae Esgob! Ostin 7, 1935 oedd y car, rhif JC1947. Arferai Henry Charles ddweud y byddai'n fwy na bodlon pe bai'r car yn para' iddo tan 1947! Roedd yna dri neu bedwar o breswylwyr eraill yn cadw eu ceir yn y garej hefyd.'

Mae hefyd yn cofio'r Bee Hive (dros y ffordd i Dŷ Eryri) yn cael ei gadw gan Mr a Mrs Rowlands, gyda lle bwyta yn yr ardd a fyddai'n llawn o ymwelwyr yn yr haf yn mwynhau te a chacennau cartref. Ac o sôn am ymwelwyr, *'credaf fod gen i gôf' o John Roberts hefo bwrdd ger giât Tai Gadlys, yn gwerthu nwyddau i ymwelwyr i'r Ceunant Mawr.'*

Roedd un siop arall yn cael ei chrybwyll, ar y gongl am Ffordd Padarn a'r Padarn Lake; *'siop lysiau Daniels, a ddaeth i fod oherwydd i dân ddinistrio tu mewn yr hen siop yn y 1940'au.'*

Dyna atgofion am un rhan fechan o Lanberis. Beth am weddill y Stryd Fawr?

Dathliadau Brenhinol

Hyd y gwn, ni fu fawr o ddathlu ym mhentrefi'r fro ar deyrnasiad o hanner can mlynedd gan y frenhines. Gwahanol iawn oedd hi flynyddoedd yn ôl, ond efallai fod amgylchiadau byw yn dipyn caletach, a bod angen rhyw esgus i gael parti go dda waeth beth oedd yr achlysur. P'run bynnag am hynny, cefais gopi o ddalennau casglu arian yn Llanberis i ddathlu Dydd y Coroni – 'nôl yn y tridegau. Gan Mrs Non Evans, Llanberis y mae'r gwreiddiol. Roedd pentref ac ardal Llanberis wedi ei rhannu'n ddwy ar bymtheg o wahanol ardaloedd, gyda threfnyddion neu gasglwyr i bob ardal. Merched oedd y cyfan o'r casglwyr, ar wahân i un gŵr, sef Mr J. G. Davies, a oedd yn gyfrifol am ddwy ardal: ardal 9 (Field Terrace, Goodman Street a Thomas Street) ac ardal 12 (Newton Street, Warden Street a Frondeg). Roedd llawer o'r merched yn casglu fesul dwy. Casglwyd cyfanswm o dros £30, ac ychwanegwyd £20 *'o'r dreth'*. Mae'n amlwg fod rhyw fath o chwaraeon a thân gwyllt wedi ei gynnal allan o'r gronfa, yn ogystal â the parti anferth. Costiodd y medalau (ar gyfer y plant neu enillwyr gwahanol gystadleuthau mae'n debyg) £8, a baneri £2. Roedd y tân gwyllt yn werth pum gini. Gwariwyd bron i £4 ar y chwaraeon, ac am rhyw reswm, prynwyd gwerth tri swllt a chwe cheiniog o lo. I beth tybed?

Mae gwariant y bwyd yn ddiddorol iawn! Roedd 62 torth yn costio ychydig dros £2, a 40 dwsin o 'buns' yn bunt a thriswllt ar ddeg. Prynwyd 5 pwys o de a naw galwyn a hanner o lefrith – dim sôn am goffi na lemonêd – a phunt a deg swllt gostiodd y cwbl. Roedd dant melys gan bawb yn Llanberis bryd hynny mae'n rhaid, oherwydd prynwyd 30 pwys o siwgr. Roedd angen 32 pwys o fenyn ar gyfer yr holl dorthau, 14 pwys o 'cooked ham', a 6 o boteli sôs. I ddilyn y brechdannau a'r te, cafwyd 106 pwys o gacen!

Costiodd y cyfan fwy na gwerth y casgliadau. Does dim sôn beth ddigwyddodd i'r arian oedd yn weddill o'r cyfanswm a gafwyd o'r dreth.

Tybed oes rhywrai yn cofio'r dathliadau hyn, neu wedi clywed eu rhieni yn sôn amdanynt? A sut fath o ddathlu oedd yn digwydd ym mhentrefi eraill y fro?

Teulu Hume a Hobley

Mae gwybodaeth am y teulu hwn yn parhau i ddod i law. Cafwyd cyfraniadau ysgrifenedig gan Mrs Helen Royle Edwards o'r Bontnewydd, Mrs Shirley Griffiths, Caerfyrddin, Mrs Vevar (gwybodaeth ychwanegol), a galwadau ffôn. Felly, am y tro, rhaid gohirio'r bennod derfynol am y teulu diddorol hwn.

Bardd o Lanberis

Daeth cais i law yn holi am wybodaeth ynglŷn â David R. Griffith, genedigol o Lanberis, ond yn fwy adnabyddus wrth ei enw barddol, Granvillefab. Yr ychydig wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yw iddo ymfudo i'r America, o bosibl, mor bell â Califfornia, ond iddo ddychwelyd i'r ardal hon i ddiweddu ei oes.

Roedd ei farddoniaeth yn boblogaidd iawn ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a gosodwyd nifer o'i weithiau ar gân.

Granvillefab oedd awdur 'Y Milwr Dewr'. Gosodwyd y geiriau ar alaw gan Dr Joseph Parry. Y cerddor R. S. Hughes oedd yn gyfrifol am osod 'Gwenfron' ac 'Arwyr Cymru Fu' i gerddoriaeth.

Rwy'n tybio iddo gael ei gladdu ym mynwent Llanrug, ond rhaid chwilota mwy i gadarnhau hynny. Gwn hefyd ei fod yn medru canu yn y mesurau caeth – mae englynion o'i eiddo wedi eu cyhoeddi mewn papurau newydd.

Cofeb y Dewrion

Gan gyfaill o Fangor y daeth cais ynglŷn ag awdur llyfr o'r enw *'Cofeb y Dewrion'*, sef hanes bechgyn o Fangor a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Ei enw oedd W. J. Owen, a defnyddiai'r ffugenw 'Afallon'. Ymfudodd i'r America yn ŵr ifanc, ac yno cafodd droedigaeth. Fe'i hordeiniwyd yn weinidog, a bu'n gofalu am rai o eglwysi Methodistaidd Bangor. Ymddengys ei fod yn enedigol o Lanrug – fe'i ganed tua 1865, a bu farw ym mis Hydref 1941. Credir fod mab iddo wedi bod yn fferyllydd ym Mangor.

Dyna'r esgyrn sychion fel y'i derbyniwyd. Oes rhywun all ychwanegu mwy o gig?

Carthen Pwllheli a Melin ym Mhontrug

I'r rhai ohonoch sy'n aelodau o Gymdeithas Bob Owen, neu'n brynwyr o'r cylchgrawn *'Y Casglwr'*, efallai i chwi ddarllen yn y rhifyn diwethaf erthygl gan D. G. Lloyd Hughes am Garthen Pwllheli. Y gwneuthurwr oedd John Roberts o Gaernarfon, ond yr hyn sy'n ddiddorol yw mai mewn melin ym Mhontrug y sefydlodd ei waith, a bod ei deulu'n hannu o fro'r 'Eco'. Mwy am hanes y melinydd yn rhifynnau nesa'r 'Eco'.

Os oes unrhyw wybodaeth gennych am wahanol agweddau o hanes bro, yna cofiwch gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515).

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

LLONGYFARCHIADAU i Emma Lovell, 1 Tai Gwyrfai ar basio yn ddiweddar Gradd 2 ar y Piano a Gradd 4 gyda Corned. Hefyd Manon Wyn Jones, Gwelfynydd, Clwt-y-bont, ar basio Gradd 2 ar y Tenor Horn. Daliwch ati genod!

DIOLCH. Dymuna Catherine a Richie, chwaer a brawd y diweddar Hughie Jones, gynt o Ddeiniolen, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, y cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli brawd hoffus.

Diolch am y rhoddion er cof i'r Nyrsus Macmillan a'r Hospis ac i'r Parch Geraint Hughes am ei wasanaeth ar ddiwrnod yr angladd ac, yn ei gynorthwyo, y Parch Dewi Morris.

Cyfanswm y rhoddion oedd £550.00

EBENESER. Fore Sul, 7 Gorffennaf cafwyd oedfa arbennig yn y capel dan ofal y gweinidog, y Parchedig John Pritchard, pryd y bedyddiwyd Ella Marzelos Jones, merch fach Marina a Gwilym Jones, Ffordd Deiniol.

Derbyniwyd chwech o bobl ifanc yr Eglwys yn gyflawn aelodau, sef Mathew a Sarah Barlow, 5 Tai Califfornia; Heledd Bryn Parri, Cynefin; Catrin Parry, 1 Tai Gweledfa; Claire Williams, 9 Rhes Fictoria a Collette Williams, Maldwyn House. Cyflwynwyd copi o *Caneuon Ffydd* iddynt i gofio'r achlysur

Derbyniwyd dwy arall yn aelodau o'r Eglwys hefyd, sef Mrs Nia Williams, Blaen Cae Isaf a Mrs Heather Williams, 50 Bro Isfryn, Glasinfryn.

Estynnwyd croeso cynnes iddynt i gyd. Gweinyddwyd y Cymundeb ar derfyn yr oedfa.

PRYSURDEB. Bu plant Ysgol Sul Eglwys Crist Llandinorwig yn hynod o brysur a llwyddiannus ddechrau'r haf yma. Yng Ngŵyl Gorawl Eryri, a gynhaliwyd yn Eglwys St Padarn Llanberis ar Sul y Drindod, sef 26 Mai, derbyniodd 24 ohonynt dystysgrif teilyngdod am eu gwaith trylwyr yn dysgu a pharatoi ar gyfer yr Wyl.

Hefyd cipiodd Louise Roberts, 10 Rhes Cynfi y wobr gyntaf am waith ysgrifenedig Blwyddyn 7 ac 8 Ysgol Uwchradd ac ennill Cwpan Goffa Alun Jones. Daeth yr Ysgol Sul hefyd ar y brig yn yr Adran Gelf a Chrefft ac ennill Cwpan Coffa Lowri Pritchard am eu gwaith yn cyflwyno Taflen Deithio ar un o deithiau Paul.

Eleni, yng Nghapel Cefn y Waun yr oedd gwasanaeth blynyddol y Feibl Gymdeithas, ar y nos Sul olaf ym Mehefin ac, fel arfer, rhoddodd y plant gyfrif da ohonynt eu hunain.

Ar nos Wener, 5 Gorffennaf cymerasant ran mewn taith gerdded noddedig i godi arian i Gronfa Rhys Parry, sydd yn aelod o'r Ysgol Sul, a hyd yma, maent wedi casglu dros £700 ac yn dymuno gwellhad buan i Rhys.

Daliwch ati'r hen blant ac edrychwn ymlaen i'ch gweld ar 8 Medi pan fydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau ar ôl gwyliau'r haf.

GYDA'N GILYDD GWAUN GYNFI

Un o gynlluniau 'Pobl mewn Cymunedau' yw cynllun hyfforddiant. Mae'r cynllun wedi ei anelu at weithlu cwmnïau yng Ngwaun Gynfi (e.e. ISC yng Nghlwt y Bont), pobl sy'n gweithio ar liwt eu hunain ond sy'n byw yn yr ardal, pobl sy'n gweithio y tu allan i'r ardal a phobl sy'n edrych am swydd ac yn awyddus i ddysgu sgiliau newydd.

Yn ystod misoedd Medi a Hydref, mae'r Pwyllgor Llywio wedi trefnu'r cyrsiau ganlynol:

- gyrru wagenni fforch godi (fork lift trucks)
- cymorth cyntaf (sylfaenol ac uwch)
- peirianneg sylfaenol (basic engineering)
- mesuriadau sylfaenol (basic measurements)
- olwynion crafog (abrasive wheels)
- rheoliadau gweisg pwyso (power press regualtions)

Er mwyn sicrhau lle ar gwrs cysylltwch â Katie Jones yn Nhŷ Pawb, 22 Pentre Helen (01286) 871792 neu Ken Newing (e-bost: ken@newingpdsc.fsnet.co.uk) neu ffôn (01248) 671052. Bydd y ddau hefyd yn croesawu syniadau ar gyfer cyrsiau hyfforddiant eraill.

LLONGYFARCHIADAU i Lindsey Vaughan Parry ar ennill cystadleuaeth Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn am lefaru yn Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi 2002.

Rhai o blant Ysgol Sul Llabdinorwig gyda'r tystysgrifau a dderbyniasant yng Ngwyl Gorawl Eryri.

Dyma lun o blant Ysgol Sul Llandinorwig o flaen yr Eglwys cyn cychwyn ar daith gerdded i godi arian i Gronfa Rhys Parry.

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO
24 awr y dydd – 7 diwrnod yr wythnos
PLUM24CYM
Gwaith Plymio • Gosod Ceginau a Bathrwms
Gwaith cynnal a chadw o bob math
Cysylltwch â **DOUG JONES**, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: **(01286) 650363 (0797) 0318996** (symudol)

Alwyn a Sarah Jones
BLODAU
RACCA
PENISARWAUN
Blodau ar gyfer pob achlysur
Dewis da o Lysiau Fferm
Wyau *Free Range*
Ar agor saith diwrnod
870605
Danfon 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro

PRYD I BAWB
Bwffe blasus o safon at bob achlysur
CINIO BUSNES
BEDYDD
PEN-BLWYDD
TE ANGLADDAU
CERID MACKINNON
(01286) 673190

Atgofion am Siop Bryn Pistyll Waunfawr

Erthygl gan Mrs Elizabeth M. Edwards, 2 Llys Mostyn, Trelawnyd, Y Rhyl

Ganwyd fi ym mhentref Waunfawr a saif ar y ffordd fawr o Gaernarfon i Feddgelert. Tyddyn bach o'r enw Penybryn oedd fy nghartref. yn edrych i lawr ar gapel Bethel, neu'r Capel Mawr fel y gelwid ef yn y dyddiau hynny. Mae'r capel wedi ei dynnu i lawr ers blynyddoedd a'r Festri helaeth, lle cynhelid yr Ysgol Sul, yw'r capel presennol.

Lla a chwaracai ran bwysig yn fy mywyd i oedd Siop Bryn Pistyll. Cofiaf fynd yno hefo Mam pan oeddwn i'n eneth fechan. Nid siop gyffredin oedd hon yn agored o naw hyd bump o'r gloch, ond siop a fyddai yn agor ymhell ar ôl amser cau os byddai rhyw argyfwng – rhywun yn sâl ac angen peth o'r ffisig a werthid yn y siop; pobl ddiarth wedi galw yn ddirybudd i aros am ychydig ddyddiau, pan fyddai angen stoc ychwanegol o fywd 'neis' ar eu cyfer.

Ar nos Wener yn aml byddai'r siop yn llawn i'r drws. Ar ôl cyrraedd drw sy siop, rhaid oedd troi i'r dde, a Mam fel pawb arall yn aros ei thro nes deuai Mr W.H. Jones ati. Yn cysgodi'r cownter rhag y gwynt oer a ddeuai pan agorid y drws roedd palis pren uchel yn cyrraedd yn agos i'r to. Ar silffordd y palis roedd pob mathau o lyfrau, a nefoedd i blentyn fel fi oedd chwilio drwy'r llyfrau am un addas i blentyn i'w ddarllen. Mam o'i cho wrthyf am wneud peth felly, gan ddweud mai stoc o lyfrau ar gyfer cael eu gwerthu oeddynt a sut yn y byd yr oedd modd gwneud hynny os byddai olion bysedd arnynt.

Ar nos Wener byddai Mam yn gwneud yr 'ordor' mwy nbeu lai ar gyfer yr wythnos oedd i ddilyn. Yn ddieithriad byddai pedair owns o faco'r Aelwyd – baco cyrf a smociai fy nhad. Rhyw wyth geiniog yr owns fyddai'n gostio erstalwm – beth fyddai ei bris helliw tybed? Weithiau byddai Mam wedi gorfod cael ambell i beth o'r siop yn ystod yr wythnos a dim prês ganddi i dalu amdano, felly rhaid fyddai ei roi ar y lechen hyd nos Wener. 'Ar lab' fel yr arferem ddweud. Cofiaf fel y byddai drych bach crwn ar y palis cocd. Deuai un cwsmer i mewn â gast fehena o'r enw Megan ganddi. "Doedd ond eisiau i ddi godi Megan ar ei braich i weld ei llun nad oedd yn mynd yn gynddeiriog, yn meddwl fod yna gi arall yno.

Hoffwn sôn am garedigrwydd mawr Mrs J. Eunice Davies i mi yn bersonol fel i eraill yn yr ardal. Gyda llaw mae Dewi a minnau yr un oed, ac yn yr un flwyddyn ysgol. Ei frawd mawr Gwynn, gydag eraill o gyd-weithwyr selog fu'n foddion i sefydlu Antur Waunfawr. Rhyw saith a hanner oedd fy oed pan gefais ddamwain yn ysgol y Waun gan syrthio a thorri fy nghoes. Gwyddai Mrs Davies am fy hoffter o ddarllen a llawer gwaith y rhoddodd fenthyg llyfrau Gwynn a Dewi i mi pan alwai Mam yn Siop Bryn Pistyll. Ymhen rhyw flwyddyn wedyn cefais ddamwain arall sef troi llond tebot o de poeth am ben fy nhroed. Roedd yn gwbl amhosibl i mi roi esgid am fy nhroed. Roedd Mam braidd yn hen-ffasiwn ei ffordd a chredai fod gwisgo 'wellingtons' bneu 'plimsoles' am oriau yn afiachgan fod traed yn chwysu ynddynt. Beth wnaeth Mrs Davies ond rhoi menthyg pâr o wellingtons Dewi i mi gerdded i'r ysgol.

Cyfnod arall yn hanes y siop a Gwynn erbyn hyn yn 'hogyn mawr' ac yn helpu yno. Roedd y tenlu yn byw yn y tŷ mawr o'r enw Glanfa oedd dros y fford i'r siop. Roedd Mrs Davies yn arweinydd Urdd Gobaith Cymru yn y pentref. Roedd Mrs Ellen Jones, mam Mrs Davies yn byw yn Glanfa a chanddi forwyn o'r enw Katie. Nid oedd teliffon yn y siop, a chofiaf weld Katie yn dod drwy ddrws y siop ac yn galw 'Mrs Davies, ffôn'.

Roedd llawer o'r bwydydd a werthid yn siop Bryn Pistyll yn fwydydd 'rhydd'. Golygai hyn fod y sawl a weithiai yno yn gorfod pwyso'r bwyd yn ofalus, a'i roi mewn bag yn barod i'r cwsmer. Un o ddyletswyddau Gwynn oedd gwneud y gwaith hwn. Doedd reis er enghraifft na defnydd unrhyw bwdin ddim yn cael ei werthu mewn tuniau hwylus fel yn y dyddiau hyn, ond reis rhydd. Golygai hyn ei goginio, wedi ei gymysgu a phethau eraill, a'i roi yn y popty am amser hir. Cofiaf fod yn y siop unwaith a Gwynn wrth y cownter gyda chwsmer. Nid reis oedd y cwsmer yma eisiau ond rhywbeth arall. Cofiaf Gwynn yn gofyn 'Sego tira, sego cenllysg neu sego cenllysg mân?'

Roedd Band of Hope yn cael ei gynnal yn y Festri ar nos Wener a gwobrau o arian yn cael eu rhoi i'r enillwyr. Cofiaf un tro fod dwy ohonom wedi cael chwe cheiniog gwyn yn wobr am rywbeth yn y cyfarfod. Mynd yn syth i'r siop – roedd yr arian yn llosgi a'r ddwy ohonom yn methu cael eu newid yn ddigon buan. Mynd yn syth at Gwynn – ar draws y ciw yn y siop mae'n siŵr – a gofyn am newid. Doedd dim rhaid i ni brynu dim felly adre a mi ac i'r bocs celc, lle'r oeddwn yn brysur yn hel i gael piano, yr aeth fy nghyfran i.

Daeth newid yn ffordd teulu'r siop o fasnachu pan ddechreuwyd gwerthu dillad a phethau tebyg ar y cownter ar ochr chwith i'r siop. Rwy'n meddwl mai Mrs Ellen Jones oedd yn gyfrifol am yr adran hon o'r busnes. Roedd un o'i meibion, Mr J. Eryri Jones wedi agor siop ddillad ym Mangor. Fel y cynyddai'r busnes felly hefyd yr ehangwyd y busnes gwerthu dillad yn Siop Bryn Pistyll. Gwn y byddai Mrs Jones yn arfer talu cost bws cwsmer i Fangor os byddent angen rhyw ddilledyn oedd ddim mewn stoc ganddi hi. Roedd pris tocyn bws o'r Waunfawr i Gaernarfon yn 9 ceiniog ac wedyn yn swllt a dwy geiniog ymlaen i Fangor. Cofiaf i Mam, Anti Mary a minnau elwa ar y caredigrwydd hwn pan fu farw fy nhad yn 1942. Daeth Mam a Nhad a minnau at Anti Mary i Bontrhythallt rhyw flwyddyn cyn i'm tad i farw gan osod tŷ Penybryn i berthynas i ni. Yr adeg yma roedd angen 'mournings go iawn,' dillad du bitsh, os oedd modd. Mynnodd Mrs Jones dalu cost bws y tair ohonom er mwyn i ni fedru mynd i Siop J. Eryri Jones ym Mangor. Roedd un o'r gweithwyr yn y siop hon wedi cael ei bomio allan yn Lerpwl ac yn mynd i'r un capel a ni ym Mhontrhythallt.

Yn fuan ar ôl i'm tad farw llwyddwyd i werthu Penybryn. Gan nad oedd gennyf deulu agos yno, anaml yr awn ar ymweliad â'r pentref. Dros y blynyddoedd roedd newid mawr i ddod i Siop Bryn Pistyll. Bu farw Mr W. H. Jones ac, ar ôl hynny, fe gaewyd y siop. Roedd Gwynn a Dewi wedi priodi a chael teulu flynyddoedd cyn i hynny ddigwydd. Bu'r siop ar gau am flynyddoedd. Torrodd iechyd Mrs Davies i lawr ac er yn parhau i fyw yn Glanfa hyd yr wythnosau olaf, roedd yn analluog iawn – Mrs Davies a edmygwn i gymaint pan yn blentyn ac yn sicr ar ôl tyfu i fyny. Gwerthwyd adeiladau'r siop, ond ni wnaeth y prynwr unrhyw ymgais i'w hymgeleddu. O ganlyniad disgynnodd yr adeiladau i gyflwr truenus iawn.

Amser maith ar ôl hyn sefydlwyd Antur Waunfawr. Roedd yn rhoi ctyfle i'r rhai anabl yn feddyliol fod yn rhan o'r gymdeithas. Dysgu byw gydag eraill, gwneud gwaith o dan ofal dynion profiadol, a pheth pwysig iawn iddynt oedd derbyn tâl am eu gwaith. Aeth hyn ymlaen am rai blynyddoedd, ond rhyw ddiwrnod darfu i mi alw i weld Gwynn. Aeth a mi i'r hen siop, a dyna fraw a gefais. Pan agorodd y drws roedd arogl llosgi yn llenwi fy ffroenau – roedd rhywun neu rhywrai wedi ceisio rhoi'r hen adeilad ar dân yn fwriadol.

Siom enfawr i bawb oedd meddwl fod casineb yn ardal Waunfawr tuag at yr ymdrechion hyn. Felly dyma ddechrau ar gyfnod trist yn ei hanes. Ond roedd yn anodd lladd ysbryd y rhai a gafodd y weledigaeth fawr ar y dechrau. O dipyn i beth dechreuwyd ar y gwaith digalon o geisio cael trefn ar bethau yn y siop. A'r tro yma daeth llwyddiant mawr.

Mae caffi rhagorol yn yr Antur erbyn hyn. Cefais y fraint, yr haf diwethaf, o brofi'r bwyd bendigedig a rhesymol a ddarperir yno. Yn y siop gwerthir llawer o bethau cywrain. Merched gan fwyaf sy'n gweinyddu yma. Mae'r dynion yn gwneud eu rhan gyda gwaith oddi allan. Maent hwy yn gofalu am erddi a lawntiau yn y Waun ei hunan ac yn yr ardaloedd o gwmpas. Hir oes i Siop Bryn Pistyll ar ei newydd wedd.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)

CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco**

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

POB LWC i bob un ohonoch fydd yn cychwyn mewn ysgol newydd neu yn y Coleg.

LLONGYFARCHIADAU i Rachel Morris, Weirglodd Goch ar gyrraedd ddeunaw oed ar 17 Gorffennaf.

Bu'n benblwyddi arbennig iawn yn Nhawelfa yn ddiweddar gydag Iwan yn dathlu ei ben-blwydd yn un ar hugain; Nia yn dechrau mwynhau bywyd o ddifrif a Myfanwy yn cyrraedd oedran arbennig iawn. Pob dymuniad da i'r tri ohonoch.

LLWYDDIANNAU ARHOLIAD. Llongyferchir pawb ohonoch fu'n sefyll yr amrywiol arholiadau a dymunir pob llwyddiant eto i'r dyfodol.

SIOEAU. Mae pawb yn ymwybodol o arbenigrwydd rhai o'r pentref am fagu adar, defaid a cheffylau. Llongyferchir chwi oll ar eich campweithiau yn yr amrywiol sioeau yr haf hwn.

EISTEDDFOD TYDDEWI. Bu'n eisteddfod hynod lewyrchus i Fro'r Eco. Llongyfarchiadau i Judith Harding, aelod o grŵp Dawnsio Gwerin, Caernarfon a gipiodd y wobr gyntaf. Mawr fu'r llawenydd o weld John Eifion yn derbyn medal arweinydd y Côr Buddugol a llongyfarchiadau i Gôr y Brythoniaid o dan ei arweiniad. Llongyfarchiadau brwd i bawb o'r fro a fu'n fuddugol yn yr Ŵyl. Bu'n wefr i mi (Goh.) fod yn bresennol yn Seremoni'r Fedal Ryddiaith a gweld Angharad Price, ffrind agos i Eurgain a'r teulu, yn sefyll, a hynny ychydig seddi i ffwrdd. Llongyfarchiadau, Angharad!

GWELLHAD. Anfonir y cofion annwylaf at bawb ohonoch sy'n sâl yn y pentref. Hwyrach y cawn Haf Bach Mihangel i godi'ch calon. Gobeithio fod Jean Jones, Bryntirion yn gwella wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

TRIP YR YSGOLION SUL. Mwynhawyd trip gwerth chweil eleni, rhywbeth at ddant pawb – siopa yn Cheshire Oaks, rhyfeddu at fywyd y dŵr a'r môr yn y 'Blue Planet' ac orig gostus yn y ffair yn Rhyl. Dymunir diolch i Elizabeth Jones ac Ann Peterson am wneud y trefniadau. Diolch o galon.

YSGOL SUL BOSRA. Bu rhai aelodau yn Sbri'r Ysgol Sul, dan ofal Henaduriaeth Arfon bnawn Sul, 14 Gorffennaf. Roedd gwledd o amrywiol weithgareddau wedi'u trefnu gan aelodau Ysgolion Sul Caernarfon. Dymunir diolch o galon am bnawn difyr a diddorol.

CYMANFAOEDD. Diolchir i'r plant a'r athrawon am eu gwaith clodwiw yn y ddwy Gymanfa. Diolch hefyd am anogaeth a chefnogaeth y rhieni. Llongyfarchiadau i Rhys am arwain Cymanfa;'r Methodistiaid, a hynny mor hamddenol a hyderus. Da iawn chdi, Rhys.

DIOLCH. Dymuan Mrs Blodwen Mowll, Gwyn, Carys, Glyn ac Alun a'u teuluoedd ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn dilyn marwolaeth Mr Ken Mowll. Bu hyn o gysur mawr iddynt fel teulu.

DYMUNA Iwan, Nia a Myfanwy ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion ar achlysur eu pen-blwydd arbennig. Braf oedd cael cwmni Menna, chwaer Myfanwy a Ron, ei gŵr, a ddaeth yr holl ffordd o Toronto, Canada i rannu'r llawenydd a'r dathlu mawr.

APÊL PLYGU'R ECO. Bydd Plygu'r Eco yn ein gofal ni ar 26 Medi. Os oes unrhyw un yn dymuno helpu i nôl yr Eco o Wasg Gwynedd, buasai Ann a Dafydd yn falch iawn o'ch help. Byddwn fel arfer yn cychwyn y plygu o 5.30 ymlaen ac wedi gorffen o gwmpas 7.30. Felly beth am ysgwyddo'r baich a gwirfoddoli i roi rhyw ddwy awr i'r Eco. Taer erfynnir am eich help, yn Neuadd yr Eglwys. Diolch.

EGLWYS SANTES HELEN.

Dyma drefn y gwasanaethau sydd i'w cynnal yn ystod mis Medi am 10.30 o'r gloch y bore.

1: Boreol Weddi, Mr Derek Jones;
8: Cymun Bendigaid, Parch Philip Hughes;
15: Cymun Bendigaid, Parch Vittoria Hancock;
22: Boreol Weddi, Mr Derek Jones; Gwasanaeth Dathlu Canmlwyddiant y ffenestri Lliw am 4.00 o'r gloch;
29: I'w drefnu a'i gyhoeddi eto.

YSGOL SUL. Mi fydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau ar ôl gwyliau'r haf yn Neuadd yr Eglwys am 10.30 bore Sul, 8 Medi. Estynnir croeso cynnes i aelodau newydd a hen.

CANMLWYDDIANT FFENESTRI LLIW YN EGLWYS ST. HELEN.

Eleni mae y Ffesnstri Lliw wedi eu gosod yn yr Eglwys ers 100 mlynedd ac i ddathlu y canmlwyddiant mae gwasanaeth arbennig yn cael ei gynnal yn yr Eglwys nos Sul, 22 Medi am 4 o'r gloch. Mae ein gefaill blwyf yn Cemais yn dod atom hefyd i ddathlu ac estynnir croeso cynnes i bawb i'r gwasanaeth yma. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael i bawb yn Neuadd yr Eglwys yn dilyn y gwasanaeth. Manylion llawn i'w cyhoeddi yn y wasg leol.

GYRFA CHWIST I DDECHREUWYR. Yn dilyn sawl ymholiad a diddordeb yn y Gyrfaon Chwist, fe gynhelir Gyrfaon Chwist i Ddechreuwyr (neu nosweithiau dysgu chwarae chwist) yn Neuadd yr Eglwys. Dechrau nos Lun, 9 Medi am 7.30 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i bawb o bob oed. Dewch yn llu i fwynhau yn yr hwyl a'r cymdeithasu.

DAWNSIO LLINELL. Yn dilyn toriad yn ystod mis Gorffennaf mae'r Dawnsio Llinell yn ail ddechrau yn Neuadd yr Eglwys bob nos Fercher am 8 o'r gloch, gyda Ken a Jan Kickers.

WYTHNOS Y CARNIFAL, AWST 12 – 18. Cynhaliwyd y gweithgareddau fel a ganlyn:

Llun: Bingo yn Neuadd yr Eglwys gyda'r galwr, Helen Owen.

Mawrth: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. Yr MC oedd Selwyn Griffith.

Mercher: Mabolgampau ar gaeau'r Ysgol Gymuned yng ngofal David a Wendy Phillips.
8.00 o'r gloch: Dawnsio Llinell.

Iau: Gŵyl Flodau yn yr Eglwys o 10 y bore, gyda Chymun Bendigaid hyd at 7.00 yr hwyr. Bu hyn bob dydd yng ngofal Mr a Mrs Clifford Williams, Mrs Margaret Christian a Mrs Janet Ash.
7.00 o'r gloch: Twmpath Dawns a Disgo yn y Neuadd.

Gwener: Helfa Drysor i gychwyn o Neuadd yr Eglwys am 7.00 o'r gloch yng ngofal y Parch Tegid Roberts a'r teulu.

Sadwrn: Y Carnifal am 2.00 o'r gloch ar gaeau'r Ysgol Gymuned.

Sul: I gloi'r gweithgareddau cafwyd Cymanfa Ganu gydag eitemau gan Côr Meibion Bangor, Arweinydd James Griffith.

Bydd canlyniadau'r gweithgareddau, ynghyd â lluniau yn cael eu cynnwys yn y rhifyn nesaf.

Noson Goffi
Eisteddfod y Pentref
Penisarwaun

Nos Wener, 20 Medi 2002
am 6.30 o'r gloch

Neuadd yr Ysgol Gymuned
Mynediad 50c i oedolion
(am ddim i blant)
Yn cynnwys lluniaeth

Testunau a rhaglenni
Eisteddfod y Pentref ar werth

Stondinau
(tombola, teisennau, raffl, ayyb)

Eisteddfod y Pentref
Penisarwaun

Dydd Sadwrn
16 Tachwedd 2002
am 1 o'r gloch

Neuadd yr Ysgol Gymuned
Mynediad trwy raglen 50c
(plant am ddim)

Bydd egwyl a lluniaeth ysgafn ganol y prynhawn

Croeso i bob oedran

Am fwy o fanylion, rhaglenni a thestunau cysylltwch ag
Elizabeth Woodcock
(01286) 870 121

& Restaurant
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant – disgo a.y.y.b.
Bwrdd Pŵl ar gael
Bwydlen Bar a Restaurant
Trwydded lawn tŷ tafarn.

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
neu
W. G. Roberts (Wil Korea)
676741

FFENESTRI
DRYSAU
DRYSAU PATIO
PORCHES
BYRDDAU FFASIA
CLADIO
CONSERFATERIS

BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

GORSAF BETROL
Esso BERAN
DEINIOLEN
Ffôn: (01286) 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DIOLCH. Dymuna Iwan Elis Morris, Treflys ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a gafodd ar achlysur ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar 17 Gorffennaf.

DIOLCH. Dymuna Mair a William James, Gogerddan, Bro Eglwys, ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau a'r anrhegion a gawsom ar achlysur ein Priodas Arian ar 16 Awst. Gwerthfawrogwn yr holl garedigrwydd diffuant a fynegwyd tuag atom.

DIOLCH. Dymuna Ann Ellis Williams, Y Ddolwen Fach ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a'i chyd-weithwyr am y llu cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Mrs Nan Owen, Garys a Sioned, Berwyn, Saron ddiolch i'w llu ffrindiau, cymdogion a pherthnasau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ar ôl colli gŵr, tad a thaid annwyl iawn, Tom Owen.

Diolch arbennig am y cardiau, llythyrau, galwadau ffôn a'r rhoddion at Uned Arennau Ysbyty Gwynedd a Ward Gwyrfai, Ysbyty Bryn Seiont. Diolch hefyd i Staff Ward Hebog ac Uned Arennau Ysbyty Gwynedd; Ward Gwyrfai Ysbyty Bryn Seiont; Doctoriaid a nyrsus Meddygfa Stryd y Farchnad, Caernarfon a'r Ymwelwyr Cartref am eu gofal o Tom am flynyddoedd.

Diolch i Mr a Mrs Kevin Johnson, Y Bedol am baratoi y lluniaeth. Mr Gwyn Jones, Mri Gwilym Jones a'i Fab, Caernarfon am y trefniadau angladdol cwrtais a pharchus ac i'r Parch Dafydd Hughes, Cysegr a'r Parch R. E. Hughes, Nefyn am eu gwasanaeth.

CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Elin Morris Jones, 1 Bro Eglwys ar basio arholiad Piano Gradd 1 gyda rhagoriaeth o dan nawdd yr Ysgolion Cerdd Brenhinol.

LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau i'r canlynol ar lwyddo mewn arholiadau a gynhaliwyd ym Mangor yn ddiweddar, dan nawdd yr Ysgolion Brenhinol, sef Gethin Wyn Griffiths, Dolserau, Stad Eryri, Piano Gradd 2 gyda Theilyngdod; Aled Gwilym Jones, Hafan, Y Rhos, Cornet Gradd 3, a Siôn Garth Owen, Tŷ'r Ysgol, Cornet Gradd 4 gyda Theilyngdod.

MERCHED Y WAWR. Cynhelir y cyfarfod cyntaf o'r tymor newydd yn yr Ysgol Gynradd am 7.30 nos Fercher 11 Medi. Bydd y noson agoriadol dan ofal y tair chwaer o Gaernarfon, Malan, Manon a Medi. Bydd croeso cynnes iawn yn disgwyl pob cyn-aelod, ac hefyd unrhyw un o'r newydd a hoffai ymuno â'r Gangen.

EISTEDDFOD BETHEL. Mae trefniadau ar gyfer yr Eisteddfod eleni ar y gweill a mae'r testunau eisoes wedi cyrraedd y siopau lleol. Bydd y plant yn derbyn copi wedi i'r ysgol ddechrau ym mis Medi. Hefyd, ar ddydd Mawrth, 10 Medi, rhwng 3 a 4 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd bydd cyfle i'r plant sydd eisiau cymryd rhan mewn partïon canu a llefaru roi eu henwau i lawr i aelodau o'r pwyllgor.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu partïon llefaru neu ganu, oedran cynradd neu uwchradd a fyddech cystal â chysylltu â Manon Gwynedd (670218) neu ddiddordeb mewn dysgu partïon dawnsio disgo cysylltwch â Sian Harris, Tyddyn Andrew.

Dymuna'r pwyllgor hefyd longyfarch Angharad Price, Huw Llywelyn Jones, Dewi Griffiths a Sioned Owen ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bu'r pedwar ohonynt yn hynod gefnogol i'r eisteddfod leol.

CLWB 100 CLWB PÊL-DROED. Enillwyr Awst oedd: £100: Gareth W. Jones, Bethel; £50: Dewi Hughes, Bethel; £25: Caroline Johnson, Bethel; £25: Dylan Griffith, Caernarfon.

Am ragor o wybodaeth neu i ymuno gellir cysylltu â Mr Tecwyn Hughes, 4 Y Ddôl, Bethel, Ffôn (01248) 671469.

CYDYMDEIMLO. Ddydd Mercher, 10 Gorffennaf ar ôl gwaeledd hir bu farw Tom Owen, Berwyn. Estynnir pob cydymdeimlad â Nan, Carys, Sioned a'r teulu yn eu profedigaeth.

CLWB 100 Y NEUADD. Erbyn hyn gellir cyhoeddi enwau enillwyr gwobrau y Clwb 100 am y 6 mis o Chwefror i Orffennaf. Mae'r enillwyr fel a ganlyn:

Chwefror: Tegwen Morris, 32 Bro Eglwys (£50); Gwilym Williams, 20 Y Ddôl (£25); Cathy Bell, Tŷ Newydd (£10).

Mawrth: Joyce Pugh, Tan y Buarth (£50); Elwyn Hughes, Bryn Ogwen (£25); Freda Jones, 3 Rhoslan (£10).

Ebrill: Margaret Davies, 10 Tan y Coed (£50); Carys Wyn Jones, 45 Bro Eglwys (£25); Helen Williams, Ty'n y Gadlas, Pentir (£10).

Mai: Maud Williams, Deulyn (£50); Steve ac Andrea, 38 Y Ddôl (£25); Mena Coles, Maes yr Haf (£10).

Mehefin: Steve ac Andrea, 28 Y Ddôl (£50); Jean Hughes, Ceris, Rhodfa'r Môr, Nefyn (£25); Mair Evans, 1 Fron Heulog, Saron (£10).

Gorffennaf: Nia Griffith, Glandŵr (£50); Mair Williams, 15 Y Ddôl (£25); Meinir Ll. Jones, 40 Bro Eglwys (£10).

Bydd y sieciau yn cael eu dosbarthu yn ystod y dyddiau nesaf ac o hyn ymlaen gwneir pob ymdrech i dynnu'r enwau yn fisol.

LLONGYFARCHIADAU i Geraint ac Ann Elis, Cilgeran ar fod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd yr wyres newydd, Erin Haf, i Manon a Mark ddydd Sadwrn, 17 Awst.

LLONGYFARCHIADAU mawr hefyd i Gwyneth ac Elwyn, Llys Gwynt ar enedigaeth Tomos Puw i Gwen a David yn ddiweddar.

Hefyd i Mary ac Oscar ar enedigaeth Osian, pedwerydd mab i Catrin a Martin, Bro Rhos.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i ddau daid a nain Bethel ar enedigaeth mab, Iolo, i Sian Emlyn a Mark yn ddiweddar.

DYMUNA Elizabeth Evans, Pen Parc ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur ei phen-blwydd ym mis Gorffennaf.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)

Fframia **Gwasanaeth Fframio Lluniau**

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN - ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Royal Victoria Hotel
LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer

PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac ACHLYSURON ARBENNIG

CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a PHWYLLGORAU

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253

CEIROPODYDD

Mrs S. Groom MSSCh, MBChA

Yn ymweld â'ch Cartref i drin traed

Triniaeth ar gyfer:

Traed Poenus; Croen Caled; Verrucae; Cyrn a Chroen Caled; Ewinedd yn tyfu i'r byw; Torri Ewinedd; Gofal a Thylino Traed.

Ffôn: **(01248) 605450** neu **07747 696267** (symudol)

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

PRIODAS. Dydd Sadwrn, 27 Gorffennaf priodwyd Deian Roberts, mab Selwyn a Betty Roberts, Meifod, Ffordd yr Orsaf a Claire Johnson, merch Tony a Sue Johnson o Richmond, Swydd Efrog. Bydd y pâr ifanc yn ymgartrefu yn Ripon, Swydd Efrog. Pob dymuniad da iddynt.

DYMUNA Deian a Claire ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion bendigedig a dderbyniwyd ac am wneud eu diwrnod priodas mor arbennig.

Priodas Claire a Deian

CANLYNIADAU ARHOLIAD. Dymuna Ruth Ann Evans, 18 Glanmoelyn ddiolch i'w theulu a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ennill Gradd B.A. mewn Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Cymru, Bangor. Llongyfarchiadau mawr iddi hi ac i Iona Williams, Artmor, Bryn Moelyn; Sian Davies, Stad Minffordd a Claire Evans, Nant y Glyn (dyma'r enwau ddaeth i law) ac i bawb arall sydd wedi llwyddo yn yr arholiadau eto eleni. Pob dymuniad da i bawb ar gychwyn cyrsiau a gwaith newydd.

BABIS NEWYDD. Llongyfarchion mawr i Arfon a Jean Lewis, Gelliod ar ddod yn daid a nain. Ganwyd mab bach i Iona a Richard, sydd yn byw yng Nghaernarfon.

Ganwyd Ifan Aled yn ddiweddar, mab bychan newydd i Aled a Bethan, brawd annwyl i Stephan a Megan.

Brawd bach newydd gafodd Ceri a Lois, Bronallt, Ffordd Glanffynnon hefyd. Ganwyd Hari i Darryl a Sian. Llongyfarchiadau i bawb.

DIOLCHIADAU. Hoffai Megan a Bert ddiolch yn ddiffuant i deulu, cymdogion a ffrindiau lu am eu caredigrwydd a dymuniadau da yn dilyn triniaeth lawfeddygol Megan yn Ysbyty Gwynedd.

Hefyd fe ddymuna Ian Parry, Gwynant, Ffordd yr Orsaf a Helen, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas. Llongyfarchiadau i chwi eich dau a phob dymuniad da.

DYMUNA Joyce a'r teulu ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth. Bydd yr arian ddaeth i law yn mynd i Gartref Nyrsio Penisarwaun.

DIOLCHIADAU. Dymuna Griff Roberts, Tŷ Gwyn, Ffordd Llanberis ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag ato yn ei brofedigaeth o golli ei wraig annwyl, Gwyneth. Diolch am y llu cardiau a'r galwadau ffôn, ac hefyd am y rhoddion hael.

Diolch yn arbennig i bawb yn y Feddygfa yn Waunfawr, yn Hospis yn y Cartref ac i Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol.

CYDYMDEIMLWN yn arw â Mrs Maggie Lewis a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mab, Owen, brawd, a thad i Eirian, 20 Glanffynnon, a thaid annwyl.

BU FARW Mr Jack Jones, Groeslon yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â Mrs Carys Wynne, ei ferch, a'r teulu igyd.

PRIODAS RUDDEM. Llongyfarch-iadau mawr i Cliff a Vera Williams, Awelon, Ffordd yr Orsaf ar ddathlu eu Priodas Ruddem. Mae'n rhaid fod yr holl wyliau 'ma yn eich cadw yn edrych mor dda! Hwyl fawr ar y dathlu.

PEN-BLWYDD YN 18 OED. Llongyfarchiadau i Kate Beard, 1 Stad Minffordd ar ei phen-blwydd arbennig.

BRYSIWCH WELLA. Croeso adref o'r ysbyty i Meirwen Lloyd, Bryn Moelyn ac anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd ddim yn dda yn y pentref.

DYMUNA Ceridwen Jones, Eryri ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion a fu mor garedig wrthi tra yn yr ysbyty ac wedi dod adre.

PLAID CYMRU. Alun Ffred Jones yw darpar ymgeisydd Plaid Cymru yn etholiad y Cynulliad yn Arfon yn 2003, ac mae cyfle i bobl Llanrug a'r cylch ei gyfarfod. Alun Ffred fydd y siaradwr yng nghyfarfod cyntaf tymor 2002-2003, nos Fercher, 18 Medi yn y Sefydliad Coffa am 7.30 o'r gloch. Mae'n adnabyddus iawn fel arweinydd Cyngor Gwynedd ac mae ganddo'r profiad a'r gallu i ddilyn Dafydd Wigley i'n cynrychioli yng Nghaerdydd. Dowch i'w glywed ac i'w holi!

THEATR BARA CAWS.

'Fel Hen Win...' drama gan Valmai Jones, fydd cynhyrchiad nesaf Theatr Bara Caws, ac fe ddaw i Ysgol Brynrefail Llanrug nos Fercher, 2 Hydref am 7.30. Mae'r ddrama yn seiliedig ar straeon a dramâu Wil Sam, felly bydd yn noson o hwyl a chwerthin. Mae'r actorion yn cynnwys Maldwyn John, Jonathan Nefydd ac Ifas y Tryc, a Valmai Jones ei hun fydd yn cyfarwyddo. Mae ticedi ar gael gan Meirwen Lloyd (675359) a Phyllis Ellis (870237).

CÔR ERYRI. Daeth llwyddiant i Gôr Eryri unwith eto nos Sadwrn, 22 Mehefin wrth iddynt gipio'r wobr gyntaf yn y gystadleuaeth gorawl agored yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy, Llanrwst. Enillwyd y wobr gyntaf ganddynt hefyd yn y gystadleuaeth Parti Alaw Werin agored.

Hyd yma, mae wedi bod yn flwyddyn brysur a llwyddiannus iawn i'r côr merched o ardal Llanrug – sydd mewn bodolaeth ers dwy flynedd a hanner yn unig – wrth iddyn nhw gymryd rhan mewn cyngherddau ac eisteddfodau. Enillwyd y wobr gyntaf yn Eisteddfod y Ffôr yn gynharach eleni, ac mae eu dyddiadur ar gyfer yr Hydref yn prysur lenwi.

Cynhaliwyd eu Cinio Pentymor ym mwyty Tŷ Cloc Llanberis a mwynhawyd cwmni ffraeth y gŵr gwadd, Dilwyn Morgan, yn fawr iawn.

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn ymaelodi â'r côr neu am i'r côr gymryd rhan mewn cyngerdd, cysylltwch â'r arweinydd Siân Wheway ar (01286) 872001 neu aelodau eraill y côr.

YR YSGOL GYNRADD. Dymuna Mrs Nia Oliver ddiolch i'r staff a'r disgyblion am y croeso a gafodd yn yr ysgol tra bu'n athrawes ym mlwyddyn dau.

Rydym am longyfarch ein cyn-ddisgyblion am eu llwyddiant yn yr arholiadau y buont yn eu sefyll ddiwedd y tymor diwethaf a dymuno'n dda iddynt yn y dyfodol.

TAN Y COED

MARWOLAETH. Ar 21 Mehefin, yn dawel yng nghwmni ei theulu, bu farw Mrs Ceridwen Owen, 4 Tai Trefor, gynt o Tal-y-braich, Dinorwig, yn 92 mlwydd oed.

Roedd yn wraig i'r diweddar Rhys Jones Owen, Nant Gwynant. Bu'r ddau yn cadw pentiriaeth yng Nghwm Pennant cyn ymddeol i Tan-y-coed lle buont yn hapus a gweithgar yn y capel a'r gymdeithas.

Y flwyddyn olaf o'i hoes cafodd ofal tyner a chariadus yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun. Tan yn ddiweddar edrychai ymlaen bob mis i gael darllen yr Eco.

Daeth teulu a chyfeillion ynghyd i wasanaeth yng Nghapel y Rhos cyn rhoi ei gweddillion i orffwys ym mynwent Llanrug.

Roedd y cyfarfod yng ngofal y Parch Dafydd Hughes yn cael ei gynorthwyo gan y Parch Gwynfor Williams gyda Mrs Megan Williams wrth yr organ.

DYMUNA Joyce a'r teulu ddiolch o galon i bawb fu mor ffyddlon i'w modryb yn ei gwaeledd.

DYMUNA Alwyn, Delyth a Dylan, 3 Tai Tan y Coed, ddatgan eu diolchgarwch diffuant i'w teulu, cyfeillion a chymdogion am eu holl garedigrwydd a'u cydymdeimlad ar yr adeg trist yn dilyn marwolaeth Beryl Mai Jones ar 7 Mehefin. Diolch hefyd am y cyfraniadau tuag at y Feddygfa, Waunfawr ac i'r Parch John Pritchard, Llanberis am ei wasanaeth cywir a sensitif. Diolch hefyd i feddygon a holl staff y Feddygfa am eu gwasanaeth caredig dros y blynyddoedd.

CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL

CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

GWASANAETH LLEOL AR GYFER

PARTÏON • PRIODASAU • PEN-BLWYDD

BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU ...

RHOSTIO MOCHYN

AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188

Wavell Roberts

CIGYDD

London House

LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

Ar ddydd Llun yr Eisteddfod, enillodd Aled Jones Williams, cyn-reithor Llanrug, Goron Eisteddfod Tyddewi, gyda cherdd gafodd ei disgrifio gan y beirniad, Eirwyn George, fel y 'darn mwyaf gwefreiddiol a ddarllenais i ers amser maith'.

Ar ddiwedd yr wythnos – a Bro'r Eco eisoes yn dathlu tair prif wobr lenyddol; y brif wobr lefaru a nifer o wobrau eraill, – y Prifardd Myrddin ap Dafydd, fu'n byw yn yr Hen Efail, Llanrug, gipiodd Cadair Eisteddfod Tyddewi. Fel Eirug Wyn, nid dyma'r tro cyntaf i Myrddin ennill un o'r prif wobrau'r – enillodd ei Gadair gyntaf ddeunaw mlynedd yn ôl yn Eisteddfod Cwm Rhymni.



A gwefr perthyn yw'r gyfrol

Mae 66 mlynedd bellach ers i W.J. Gruffydd gyhoeddi ei gyfrol 'Hen Atgofion', yn croniclo hanes plwyf Llanddeiniolen a phentref Bethel ei lencyndod. Y mae'n glasur o'i fath, ac yn ymdroi mewn ffordd o fyw sy'n prysur – neu wedi – diflannu. Yn yr ugain mlynedd olaf, mae pentref Bethel wedi tyfu'n aruthrol, a'r boblogaeth erbyn hyn wedi dyblu tuag at y mil. Ychydig iawn o dir gwyrdd sy'n y pentref bellach, a phentrefi Saron a Bethel wedi hen uno. Atgof erbyn hyn yw'r hen storïau am fynd o un lle i'r llall i 'ty nain' ar wyliau!

Rwy'n siŵr fod digon o dystiolaeth lleol, yn lluniau, papurau newydd, cofnodion cymdeithasau ac eisteddfodau, capeli ac addysg, i groniclo hanes y pentref rhwng cyfnod W.J., drwy'r ail ryfel byd, hyd at gyfnod twf rhyfeddol y pentref o'r 70a'u ymlaen. Y mae croniclo hanes bro yn beth prin iawn mewn sawl ardal. Heb y cofiannau hyn, gall ardal golli ei 'gwreiddiau' yn gyflym iawn. Troi'r pentref yn 'lle i fyw' yn hytrach na chymuned fywiog. Nid glynnu i'r 'hen ffordd' yw hyn, ond gwerthfawrogi y ffyrdd mae ein gorffenol yn gosod sail i'n dyfodol.

O fewn ychydig fisoedd, rydym wedi cael tair cyfrol gan awduron a chysylltiadau â'r pentref. Hen atgofion sy'n cysylltu'r tair cyfrol, er cu bod yn llawer mwy na hynny. Croniclir cysylltiadau teuluol, eu llwyddiannau, methianau, dyheuadau, poenau a sawl emosiwn arall tu fewn i'r cloriau. Mor gryf yw'r emosiwn ar brydiau fel bod deigryn yn agos i'r wyneb. Eto, yng nghanol y llymder a'r tristwch, nid yw chwerthin yn bell i ffwrdd. Y mae rhai elfennau yn gyffredin i bob un ohonom, ac i sawl teulu. Gwelwn ein hunain yn aml yn ysgrifau eraill.

Y llyfr cyntaf i weld golau dydd oedd atgofion Jac Foulkes am ei gyfnod yn yr awyrlu amser yr Ail Ryfel Byd – 'O'r Rafn i Rangoon'. Rwyf wedi rhoi cryn ofod i'r gyfrol hon eisioes yn yr Eco. Yn y dyfodol agos, gobeithir cofnodi cyflwyno yr arian a ddaeth yn sgil gwerthiant y llyfr gan y tenlu tuag at waith ymchwil yn Ysbyty'r Waen, Caerdydd.

* * *

Yna, daeth cyfrol William James a'i wraig Mair, Gogerddan, Bro Eglwys, Bethel a'r teitl ymholgar ' Ar drywydd Y Fonesig Constantia'. Un a ymgartrefodd ym Methel o'i ardal enedigol ym Mhontrhydybont, Môn yw William James. Ffrwyth ymchwil i achau ei deulu dros nifer o flynyddoedd sydd yma Ar sawl ystyr, nofel 'ditectif' yw hon, ble mae darganfyddiadau llesol yn cael eu dilyn gan benbleth llwyr. Estyn y daith o'r presenol yn ôl i'r 1750au. Fel ymhob teulu mae ambell i ddafad ddu, ond hefyd sawl cysylltiad sy'n ffurfio a chynnal nodweddion tenlu. O olrhain yr hanes, nid yw'n syndod gweld fel y mae doniau cerddorol yn rhedeg ym mer cenhedlaeth bresenol y Jamsiaid. Y mae hefyd yn gronicl datblygiad gogledd Mon, a'r newidiadau a ddaeth yn sgil adeiladu Ffordd Telford ar draws yr ynys, a chwbwlhau Pont Crog Menai yn 1826. (A fydd rhywun yn croniclo sgil effeithiau yr A5 'newydd' ar draws yr ynys, mewn blynyddoedd, tybed?) Yn allweddol hefyd mae datblygiad tref Caergybi fel porthladd o 1821 ymlaen. Dyma gyfnod helaeth o fewn ac allfudo, a'r cychwyn o intigreiddio teuluol y gymuned frodorol a'r mewnfudwyr.

O hyd yn y cefndir mae'r Fonesig (neu Ledi) Constantia Pwy oedd hi, beth oedd ei chyfraniad, ac yng nghyswllt yr ymchwil ble oedd ei lle yng nghoeden deuluol y Jamsiaid a'r Bates?

A'i tenlu cynhenid o Fon yw'r Jamsiaid? Cewch wybod, a'ch arwain o wrthryfel y Jacobïaid yn yr Alban, drwy ffafriaeth annisgwyl uchelwr, at dollborth yng ngogledd Mon. Cawn ddilyn sawl 'llinyn' deuluol, cyfarfod sawl unigolyn a chyrraedd mannau aruchel a llwm. Y llwyr ymwrthodwr a gadwai dafarn. Y cysylltiad a llwyfannau Sadlers Wells a Chovent Garden. Y cysylltiad Americanaidd, wrth gwrs. Pulpudau anghydffurfiol ac Anglicanaidd Cymru a thu hwnt, ac o aelwydydd gwerin bobl Môn i balasau'r byddigion fel y Stanleys yng Nghaergybi.

Y mae'r cyfan wedi ei ysgrifennu mewn modd hamddenol gyda digon o fapiau a darluniau i gynorthwyo'r darllenydd. O gofio fod yr awdur a'i wraig wedi dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol ganol Awst, mae'n gyfrol amhrisiadwy i'r teulu, ac mae'r awdur yn cydnabod cyfraniad parod ei deulu a'u hanogaeth wrth lywio'r gyfrol i'w therfyn.

Y mae'r gyfrol hefyd yn gaffaeliad i unrhyw un sydd am fentro i'r byd rhyfeddd o 'hel achau'. Mae'n ganllaw drwy gyfeirio at y mannau priodol i ddarganfod gwybodaeth. O Lundain i Aberystwyth, i'r Coleg ar y Bryn, Archifdai Sirol a chofnodion plwyf.

Cefais bleser mawr yn darllen y gyfrol hon. Er fod yr awdur yn disgrifio ei hun fel 'amatur', y mae cryn ddawn ysgrifennu gan y cyn-brifathro o Fôn, ac mae ei lawenydd wrth ddarganfod a chysylltu y llinynnau tenluol yn byrlymu trwy'r tudalennau. Bargen yn wir am £10.

* * *

Yna cyfrol ysgytwol Angharad Price – O! tyn y gorchudd. Yn sicr, dyma un o lyfrau'r flwyddyn, ac wedi cyflwyno awdures wir dalentog i lygaid cenedl. Mae sawl un yn cofio dawn ysgrifenedig Angharad – a'r nythaid eraill o lenorion ieuanc y pentref – a gystadlai yn Eisteddfod Bethel yn ystod yr 80au. Braf cofnodi fod y traddodiad yn parhau hyd heddiw, a nifer o'r cynhyrchiadau wedi gweld golau dydd yn rhifynnau Eisteddfodol yr Eco.

Cwestiwn digon diniwed a naturiol a ofynais i Mair, mam Angharad, ar y stryd yng Nghaernarfon ddydd Iau cyn Eisteddfed Tyddewi. 'Ydy Angharad yn 'sgwennu o hyd? '

Wn i ddim a oedd Mair yn gwybod y gyfrinach, ond ni chefais ateb. Yr ateb yn bendant yw 'Ydy'.

Yn y gyfrol mae ysgrifennu coeth a theimladwy. Cafwyd chwip o feirniadaeth gan Hywel

R. Gwynne Davies, y Waunfawr, enillydd Medal Syr T. H. Parry Williams

LLONGYFARCHIADAU mawr i Lyndsey Vaughan ar ennill prif wobr lefaru'r Eisteddfod Genedlaethol – Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn.

Teifi, ac wedi darllen y gyfrol gwelwn hefyd fawredd y feirniadaeth. Dyma'r beirniad perffaith i draddodi ar y gyfrol arbennig hon.

'Hen atgofion' sydd yma hefyd, ond drwy 'lygaid' gwahanol iawn. Cawn y 'dall' yn gweld, a'r marw'n siarad. Y mae gwead y gyfrol yn gampwaith, gyda'r balchder o gyflwyno'r stori fel teyrnged i'w hynafiaid yn amlwg. Yng ngeiriau Rebecca, ffiniau cul sydd i'w bywyd, ond eto gwelir yma holl sbectrwm emosiynau bywyd. Teyrnged i ddawn ddisgrifiadol yr awdur yw fod deigryn yn llygaid sawl darllenydd, rwy'n siŵr. Ieithydd o reddf yw Angharad, ac yma mae'n profi ei meistrolaeth o ddefnydd a chyfraniad iaith. Yn siŵr, mae'r Gymraeg yn fwy na phwnc arholiadol. Gobeithio y gwel y gyfrol hon ei ffordd i feysydd llafur ein hysgolion ac yn sicr i'w llyfrgelloedd. Fe gawsom gyfrol gan Emyr, ei thad, ac yna campwaith Angharad – nid yr olaf gobeithio.

* * *

Y mae plac i T. Rowland Hughes – 'y dewraf o'n hawduron' (R.W.P.) – ar fur ysgol Brynrefail. Tybed a welwn gofnod cyffelyb i Angharad ac Eirug Wyn – awdur dewr arall – yn y blynyddoedd i ddod?

Y dair gyfrol o 'Fethel' oedd fy nghydymaith llenyddol draw ar wyliau yng Nghroatia. Yr wyf yn ysgrifennu'r llith yma mewn gwres llethol yn syllu ar donnau yr Adriatig yn taro'r traeth yn nhref Porec. Gydag acenion yr Almaen, yr Eidal a Rwsia fawr o'm hamgylch, mae'r tair cyfrol yma yn rhoi cryn falchder i mi yn nawn gwerin gwlad ein 'gwlad fach ni'.

Diolch, a llongyfarchiadau i'r tri am gyfraniad gwerthfawr, a gobeithio y bydd yn symbylu mwy o waith creadigol o'r pentref dawnus yma yn Arfon.

* * *

Y tair cyfrol dan sylw oedd:

'O'r Rafn i Rangoon' Jac Foulkes. Gwasg CMS, Rhydaman. Pris £5

'Ar drywydd y Fonesig Constantia'. W. H. James Gwasg Pantycelyn. Pris £10

'O! tyn y gorchudd'. Angharad Price. Gwasg Gomer. Pris £6.95

BRYNREFAIL

PROFEDIGAETH Daeth y newydd trist ar Fehefin 21ain am farwolaeth Iwan Jones, wyr Mrs Megan Jones, Greuor Villa a nai Myrddin Jones Na Nog yn 21ain mlwydd oed. Yn aelod o'r Fyddin yn gwasanaethu ar y pryd ger Paderborn yn yr Almaen gyda'r 12fed Artileri Brenhinol, bu farw Iwan o'i anafiadau yn dilyn damwain ffordd ger Detmold ar Fehefin 15fed. Yn frodor o Ddinorwig, bu'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Crist Llandinorwig ar Orffennaf 8fed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

ARDDANGOSFA. Yn ystod wythnosau olaf Gorffennaf, cafwyd arddangosfa drawiadol ac unigryw o waith Moira Ellis,Gweledfa yn Oriel Mynydd Gwefru Llanberis dan y teitl 'Arlunio ag Edau'. Cynhwysai'r arddangosfa gasgliad enfawr o frodwaith 3D yn darlunio tirwedd a golygfeydd amrywiol o fyd natur - enghreifftiau y bu yn gweithio arnynt dros gyfnod o bum mlynedd. Yn ogystal a'i gwaith ei hun arddangoswyd hefyd gynnyrch aelodau o'i dosbarth yn y grefft a gynhelir yn adeilad Menter Fachwen yng Nghwmyglo. Bu'r arddangosfa hefyd yn gyfrwng i ddwyn i sylw waith Menter Fachwen sydd a'i nod i roi hyfforddiant mewn sgiliau cymdeithasol i rai ag anawsterau dysgu. Bu Moira a chysylltiad a Menter Fachwen o ddyddiau ei sefydlu ynghyd a'i phriod Dafydd Ellis sydd yn awr yn Gadeirydd yr elusen.

ANRHYDEDDAU'R EISTEDDFOD. Rwy'n siwr ein bod fel pentrefwyr yn falch o nodi anrhydeddau a ddaeth i ran rhai a godwyd yn ein plith. Anrhydeddwyd Miss Alice Williams (Alice Brynrefail) sydd yn parhau i ddal cysylltiadau agos â'r pentref, drwy ei dyrchafu i'r wisg wen – Urdd Derwydd er anrhydedd ar gyfrif gwasanaeth maith ac arbennig i Orsedd y Beirdd.

Cyflwynwyd dwy anrhydedd i'r diweddar Tegid Jones, sef y wisg werdd – Urdd Ofydd er anrhydedd, a chynhwyswyd ei enw ar y Panel Enwogion. Fel ag y cyfeirir ato yn Rhaglen Eisteddfod Tyddewi, '... bu'n aelod allweddol o dimoedd cynhyrchu nifer helaeth o deledlaidau allanol, gemau rygbi a phêl-droed rhyngwladol, cynadleddau gwleidyddol, y gyfres hynod boblogaidd *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* a'r Eisteddfod Genedlaethol. Fe fu'n gyfrifol am oleuo y pafiliwn mawr a safleoedd eraill ar y maes am dros ugain mlynedd a llafur cariad fu'r blynyddoedd hynny. Ysbrydolodd ei gyd-weithwyr technegol i ymddiddori yng ngweithgareddau'r Eisteddfod a phrin fod neb yn fwy brwdfrydig dros yr Wyl nag ef.'

LLWYDDIANT EISTEDDFODOL. Llongyfarchiadau i John Eifion Jones, Ffrwd Goch ar ei lwyddiant fel Arweinydd y côr buddugol yn y brif gystadleuaeth i gorau meibion yn Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi. Enillodd Côr Meibion y Brythoniaid y gystadleuaeth a derbyn Cwpan y Gwarchodlu Cymreig. Fel arweinydd y côr buddugol derbyniodd John Eifion Fedal Goffa Ivor E. Simms.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Y GYMDEITHAS. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos Iau, Gorffennaf 11eg yn y Festri. Cadeirydd y noson oedd Mrs Ellen George, Swn yr Engan. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs Jennie Roberts, 2 Ffrwd Madog . Gweddiwyd y Cadeirydd wrth wadd y noson sef un o blith yr aelodau - Miss Alice Williams, Caernarfon. Cafwyd adroddiad cynhwysfawr ganddi ynghyd a ffotograffau o'i thaith fis Hydref diwethaf i Batagonia pan oedd yn rhan o'r trefniadau i ail sefydlu Gorsedd y Beirdd yn y Wladfa. Diolchwyd yn gynnes iddi gan y cadeirydd. Paratowyd y baned gan Bethan Lambert a Dwynwen Williams. 20

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau Medi 12fed pryd y disgwylir Mr Richard Jones Caeathro i roi sgwrs. Cadeirydd y noson fydd Gareth Llwyd Dafydd, Creigle.

CYFARFOD YR HENADURIAETH Hon yw yr ail flwyddyn i gyfarfodydd yr Henaduriaeth gael eu cynnal yn ganolog a'r tro cyntaf i Eglwys Brynrefail gael gwrando Hanes yr Achos tu allan i'r pentref. Seilo Caernarfon oedd cyrchfan aelodau'r Henaduriaeth a hynny nos Fawrth Gorffennaf 23ain.

Ymatebwyd i'r Holiadur swyddogol sy'n cyflwyno'r adroddiad am yr Achos yn ei amrywiol weddau gan y Parch Harri Parri a llongyfarchodd yr Eglwys ar ei gweithgarwch a'r ymdrechion diweddar i sicrhau man addoli yn lleol – "eglwys sy'n deisyfu byw". Ymhelaethwyd ar y cynlluniau arfaethedig ar ran swyddogion yr Eglwys gan Gwyn Hefin Jones gan amlinellu yr holl waith ymchwil a thrafod a wnaed eisoes a'r cais am gefnogaeth yr Henaduriaeth yn y dyfodol wrth sefydlu canolfan aml-bwrpas i wasanaethu'r gymuned.

APEL CYMORTH CRISTNOGOL Eleni fel rhan o'r ymdrech arbennig a wneir bob pum mlynedd gan yr Eglwys Bresbyteraidd gofynnir i ni ymateb i'r Apel dros bobl Bangladesh. Yn ystod mis Gorffennaf i ddechrau'r ymgyrch casglwyd £134 drwy roddion yn yr amlenni a ddosbarthwyd. Gwahoddir cyfraniadau pellach os na chawsoch gyfle i ddychwelyd eich amlen ac fe drefnir gweithgaredd i chwyddo'r gronfa maes o law.

GWASANAETH CYMUNWYR IEUAINC Fore Sul Gorffennaf 7fed yng Nghapel y Rhos Llanrug gyda'r Parch Dafydd Lloyd Hughes yn gwasanaethu derbyniwyd tri o blant yr Eglwys yn aelodau cyflawn - Amy Lambert, Dylan Davies ac Elen Williams. Roedd y tri ymhlith ugain o gymunwyr ieuainc a gafodd eu paratoi ar gyfer eu derbyn yn gyflawn aelodau gyda ieuenctid Capel y Rhos gan y Parch Dafydd Lloyd Hughes. Roedd y rhan fwyaf o'r gwasanaeth yng ngofal yr ieuenctid gan gynnwys Amy a Dylan o Frynrefail a chanwyd emyn wedi ei gyfansoddi ar gyfer gwasanaeth derbyn gan y Parch Dafydd Lloyd Hughes. I nodi'r achlysur derbyniodd y cymunwyr ieuainc gyfrol o'r Testament Newydd ynghyd a thystysgrifau gyflwynwyd iddynt gan Mr Gwyn Hefin Jones. Ar derfyn yr oedfa gweinyddwyd y cymun. Cynorthwywyd gyda rhannu'r elfennau gan Mrs Jennie Roberts, 2 Ffrwd Madog a Mr Richard Wyn Evans, Ty'n Buarth.

Yr ydym fel Eglwys yn ddiolchgar i'r Parch Dafydd Hughes am hyfforddi'r ieuenctid dros fisoedd y gwanwyn a'r haf.

TREFN OEDFAON MEDI

1 Parch H. Gwynfa Roberts, Llanwnda am 5.30;
8 Mr. Merfyn Jones, Caernarfon am 5.30;
15 Parch Reuben Roberts, Bontnewydd am 10.00. Gweinyddir Sacrament o Fedydd.
22 Mr Huw Jones, Llanwnda am 5.30;
29 Mr Richard Lloyd Jones, Bethel am 5.30.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DIOLCH. Hoffai Megan a Bert, gynt o Lanberis, ddiolch yn ddiffuant i deulu, cymdogion a ffrindiau lu am eu caredigrwydd a dymuniadau da yn dilyn triniaeth lawfeddygol Megan yn Ysbyty Gwynedd.

DYMUNA Hugh a Margaret, 2 Bryn Teg ddiolch o galon i'w teulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Arian yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Gareth Hughes, gynt o Lanberis, ar ei radd B.Sc. gyda'r Brifysgol Agored, ac ar ei anrhydeddu yn y Symphony Hall yn Birmingham gan Betty Boothroyd o San Steffan.

DYMUNA Beryl Eirian a Mona ddiolch i bobl yr ardal am eu cefnogaeth yn ystod gwaeledd Now. Diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt. Derbyniwyd yn ddiolchgar £1,400 at Feddygfa Llanberis a League of Friends Eryri, er cof am Now.

COFIO

Gair i gofio Mr Owen Henry Lewis (Now Post), Fron, Rhes Efrog, Llanberis

Ar brydiau bydd rhywun neu rywrai yn gadael argraff arbennig arnoch. Dyna hanes Now o'm perthynas i ag ef. Ni fûm yn ei gwmni am oriau, yn hytrach taro arno ar y stryd neu ger ei gartref oedd fy mherthynas i ag ef.

Serch hynny, yn ystod y cyfnodau byrion yn ei gwmni deuthum i'w adnabod yn dda gan sylwi ar rai rhinweddau amlwg yn ei gymeriad. Gŵr tawel â dawn tewi oedd Now. Yn meddu ar lais tawel a digyffro. Yn hamddenol a dityr ei sgwrs, sylweddolais fod ei galon yn y cywair priodol. Ni chlywais ef erioed yn dweud yn wael am neb na defnyddio geiriau cas. Dywedodd Thomas Grey yn ei *'Elegy Written yn a Country Church Yard'* pan yn sôn am y werin dawel, *'They kept the noisless tenor of their ways'*. Dyna hanes Now, yn dawel y cerddodd lwybrau ei fywyd gan gadw tenoriaeth hyfryd yn ei gerddediad. Yr oedd Now yn ŵr taclus iawn hefyd. Bob amser yn drwsiadus a glân, a'i fodur yn disgleirio. Dyna rinwedd arall yn ei gymeriad. Bywyd taclus a feddai, roedd y cartref a phob agwedd o'i fywyd yn dystiolaeth o daclusrwydd a threfn.

Teimlwn dynerwch a thiriondeb yng nghymeriad Now hefyd. Gwisgai wên hyfryd ar ei wyneb bob amser yn dystiolaeth o galon gynnes. Dyna un rheswm tros y berthynas glos oedd rhyngddo â'i holl deulu. Gwn yn iawn fod gan ei wyrion a'i wyresau feddwl y byd o taid.

Yn dawel, taclus a thirion, yr oedd cryfder diysgog yn ei gymeriad. Oedd, yr oedd Now yn ŵr teyrngar iawn. Ei brif ddiddordeb oedd ei deulu a'i gartref. Bu yn briod ffyddlon i Beryl; yn dad teyrngar i'w ferched, Eirian a Mona; yn fab annwyl i Mrs Maggie Lewis ac yn frawd diffuant i'w frodyr a'i chwiorydd. Yn sicr y mae ein cydymdeimlad yn ddidwyll â'r teulu yn eu colled a'u hiraeth. Tystiolaeth o berson a chymeriad Now oedd y gynulleidfa gref a ddaeth i dalu'r gymwynas olaf iddo yng Nghapel Coch yn y gwasanaeth angladdol ddydd Llun, 24 Mehefin.

Wedi'r cul a'r cysuro daeth y daith i ben yn dra sydyn er blynyddoedd o ddioddef afiechyd blin a phoenus. Oedd, yr oedd Beryl a'r teulu wedi darparu i'w ddisgwyl gartref o'r ysbyty. Ond nid felly y bu. Galwyd arno i gartref arall a ddarparwyd i Now. Diolch am y cyfle i adnabod Owen Henry Lewis, i sylwi ar ragoriaethau ei gymeriad ac i geisio ei efelychu mewn llawer agwedd.

'Fwyn gyfaill fyn ei gofio.'

John H. Hughes

LLEISIAU LLIWEDD. Diolch i Mr Deris Davies, Ael-y-Glyn am gael benthyg ei lori yn y Carnifal ac i Mr Owain Sharp (Yorkie) am ei barodrwydd bob amser i helpu'r côr. Rhoddwyd rhodd o'r arian a enillwyd gyda Llyfr Mawr y Plant gan ferched Lleisiau Lliwedd yn y Carnifal i achos Sant Ioan, Llanberis.

Ar Hydref 4, bydd Hogia'r Bonc a Côr Lleisiau Lliwedd yn cynnal noson o adloniant yn Llety Dolbadarn. Bydd tocynnau ar gael gan ferched y côr neu dalu wrth y drws.

DYMUNA Marian, Bryn Mêl, ddiolch o galon i'w theulu a'i chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddi yn ei phrofedigaeth sydyn o golli priod annwyl a charedig. Diolch i'r Parchedig Gwynfor Williams am ei deyrnged arbennig i John ar ddydd ei angladd. Bu o gymorth mawr i'r teulu. Diolch i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth yn Nant Peris. Derbyniwyd rhoddion hael o £2,500 er cof am John i'w rhannu rhwng y Feddygfa yn Llanberis a'r Gwasanaeth Ambiwlans. Diolch hefyd i'r Ymgymerwyr am eu trefniadau trylwyr a theimladwy iawn.

DYMUNA Edryd, 28 Maes Padarn, ddiolch i bawb am y llu cardiau ac arian a dderbyniodd ar achlysur ei raddio yng Ngholeg Caerdydd.

LLONGYFARCHIADAU i Iwan W. Williams ar lwyddo yn ei arholiad Piano, Gradd 3. Da iawn chdi, a brysia wella ar ôl dy lawdriniaeth ar dy lygaid yn Ysbyty Whiston, Lerpwl. Dad, Mam a Caryl.

EGLWYS SANT PADARN. Ar Sadwrn, 29 Mehefin, aeth nifer o'r plwyfolion i wasanaeth arbennig yng Nghadeirlan Bangor pryd yr ordeiniwyd ein curad, y Barch Vittoria Hancock, yn offeiriad. Ar y bore Sul canlynol cynhaliwyd Cymun Bendigaid Undebol dan arweiniad y curad pryd y daeth addolwyr o eglwysi Cwm-y-glo, Llanrug, Nant Peris, Llandinorwig a Phenisarwaun atom i ddathlu'r ordinasiwn. I ddilyn y gwasnaeth cafwyd gwledd o gig rhost mochyn yng ngardd y Rheithordy.

Bu'r bwrdd gwerthu teisennau a chynnyrch cartref ar faes y Carnifal ar Sadwrn, 20 Gorffennaf yn llwyddiant er gwaetha'r tywydd ac estynnir diolch cynnes iawn i'r gwirfoddolwyr a roes y nwyddau i'w gwerthu ac i'r dewrion a fu wrth y stondin. Rhoddwyd yr elw at gronfa'r eglwys.

Gwahoddwyd, drwy lythyr personol, rieni plant a fedyddiwyd yn yr eglwys yn ystod y chwe blynedd diwethaf i gyfarfod anffurfiol yn yr eglwys ar nos Wener, 2 Awst. Ar ôl trafodaeth gwbl agored penderfynwyd cynnal gwasanaeth teuluol byr i'r rhieni a'u plant ar y trydydd Sul yn y mis am 4.00 o'r gloch, gan ddechrau

(Parhad ar dudalen 17)



LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: (01286) 650291

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang
o Welyau a *3P/Suites.*
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler.*
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc – allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION

Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. Ffôn: 870292

CLWB ORWIG. Hoff ganeuon adnabyddus oedd thema amlycaf cyfarfod o'r clwb uchod a chafwyd deuawdau poblogaidd a hwyliog gan Betty Lloyd Roberts a Ray Bower. Cyhoeddodd Betty Bower, y Trysorydd, gyfanswm terfynol yr arian a godwyd pan gerddodd yr aelodau eu Milltir Noddedig i godi arian at Gronfa Macmillan. Y cyfanswm oedd £840. Rhoddwyd cyfarchion pen-blwydd i Sue Michaels a Betty Bower. Rhoddwyd y te a gwobrau'r raffl gan John a Sally Brennan. Yr enillwyr oedd Alice Griffiths, Ann Lo a Betty Lloyd Roberts. Cyhoeddwyd y cynlluniau ar gyfer Sioe'r Haf, te mefus a hufen a barbeciw.

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Derek Williams, Bron Eilian, ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Yr wyf yn siwr ein bod yn dymuno yn dda iddo a, chan ei fod wedi bod yn cwyno dipyn yn ystod y flwyddyn, yr ydym fel ardal yn dymuno gwell iechyd iddo i'r dyfodol.

YN YR YSBYTY. Yn ystod y gwyliau yr ydym yn deall fod Mr Griffith Pritchard, Pen Dyffryn wedi bod yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn llawdriniaeth ond wedi cael dod adref erbyn hyn. Hefyd Mr Ray Bower, Tan y Marian wedi gorfod mynd i'r ysbyty i gael triniaeth ond erbyn hyn mae yntau wedi dod gartref.

Balch ydym hefyd fod Dylan Lewis, 3 Bro Elidir wedi cael dod gartref ar ôl cael damwain hefo beic modur. Ein dymuniad fel pentref yw dymuno adferiad iechyd llwyr a buan i chwi eich tri. Brysiwch wella.

CLWB ORWIG. Cafodd aelodau y clwb uchod fwyniant mawr mewn barbeciw a baratowyd yng nghartref y Llywydd, Mr John Cantrell a'i briod, Rose, yn nechrau Gorffennaf.

Atgoffwyd yr aelodau y cynhelir te mefus a hufen yn y cyfarfod nesaf a gofynnwyd iddynt ddod a gwahanol fathau o drefnianau blodau gyda hwy. Enillwyr y raffl oedd Mrs Megan Morris, Mrs Betty Lloyd Roberts, Mrs Betty Ann Jones a Mr John Brennan. Cyhoeddwyd gan y Trysorydd, Betty Bower, fod y cyfanswm a gasglwyd at Filltir Noddedig Macmillan wedi codi i £900. Diolchwyd i bawb am eu haelioni. Tristwch o'r mwyaf oedd deall fod Mr Ray Bower, yr Ysgrifennydd, wedi ei gipio i Ysbyty Gwynedd. Gobeithio y bydd yn gwella yn fuan.



Terry Taylor a'i gi – Minnie. Cafodd y ddau eu noddi i ddringo Elidir Fawr dair gwaith – rhan yn unig o'i gyfraniad enfawr, ar ran Clwb Orwig, tuag at Gronfa Milltir Noddedig Macmillan.

Aelodau Clwb Orwig gyda'r siec o £900 a anfonwyd i Gronfa Milltir Noddedig Macmillan.

DAMWAIN. Drwg gennym ddeall fod Mrs Sioned Lewis, 3 Bro Elidir wedi torri ei braich ym Mhorthmadog tra yr oedd wedi mynd a Dylan, ei gŵr ac Iwan, ei brawd, am dro ar ôl i'r ddau gael damwain. Bu iddi syrthio ar y stryd. Sioned brysia wella, a dipyn o ddŵr arno y tro nesaf.

Y GANOLFAN. Cynhaliwyd pwyllgor o'r uchod ar nos lau, 27 Mehefin. Yn bresennol yr oedd Mr Peter Lunt Williams o'r Swyddfa Addysg. Mae yn rhaid dweud fod cryn siarad wedi cymryd lle. Mae yn edrych mai dadwneud pethau oedd wedi eu pasio mewn cyfarfodydd o'r blaen a wnaethpwyd. Cafwyd ar ddeall fod yn rhaid talu i'r cyfieithydd o gronfa'r Ganolfan. Mae hyn yn golygu tua £50 y tro. Mae hysbysfwrdd wedi ei roi tu allan i'r Ganolfan ond yn anffodus does dim wedi bod ynddo eto. Mae hyn oherwydd fod y newidiadau sydd i fod i gymryd lle ar y Ganolfan wedi stopio ers dechrau Mehefin. Gresyn garw yw hyn gan fod rhaglen ar gyfer gwyliau'r haf wedi ei thynnu allan gan y trigolion, ond fe fu rhaid dileu y cyfan.

Cafwyd dau funud o dawelwch mewn parch â'r diweddar Iwan, ac i gydymdeimlo â'i dad a'i fam a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

CLWB ORWIG. Derbyniwyd nifer helaeth o flodau, planhigion a chrefftau ar gyfer y gystadleuaeth a gynhaliwyd yn y clwb yn ddiweddar. Plesiwyd Karen, y

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

- Bysiau o 12 i 53 sedd
- Teithiau Lleol a Thramor
- Gwaith Contract
- Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Sue Michaels (Trefnydd Taith Noddedig y Plant) hefo Madlen, Taliesin, Mabon, Merin a Derri a'u mamau – Stet Farrar a Sharon Sinclair.

beirniad, yn fawr gyda'r amrywiaeth a'r safon. Y goreuon oedd Alice Griffith, Nellie W. Jones, Megan Morris, Sally Brennan, Joan Glass, Morfudd Jones, Katie Hughes a Betty Bower., Yn gyfrifol am baratoi'r te mefus a hufen arbennig o flasus oedd Sue Michaels a Betty Bower. Dymunwyd yn dda i Eric Braithwaite ac Andrew Griffith ar gyfer eu penblwyddi. Diolchodd Ray Bower yn gynnes am y cardiau a'r ymweliadau a gafodd yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty. Da oedd ei weld yn ôl.

Anfonodd Cronfa Cancr Macmillan air o ddiolch i'r Clwb am eu rhodd o £900 iddynt. Yr oeddynt wedi derbyn lluniau rhai a gymerodd ran yn y Filltir Noddedig ar gyfer cystadleuaeth a gynhelir gan Macmillan.

Ann Lo a fu'n ddigon ffodus i ennill y raffl a roddwyd gan Sue Michaels.

CYDYMDEIMLAD. Anfonwn, fel ardal, ein cydymdeimlad llwyraf â Mr a Mrs Michael Lewis, Gorwel, Gallt y Foel yn eu profedigaeth. Mae Mrs Lewis wedi colli ei brawd, Tecwyn, yn 62 oed ac yn byw ym Miwmares. Catherine a Mike derbyniwch ein cydymdeimlad â chwi yn eich profedigaeth fawr a gobeithio y cewch nerth i ddal y golled.

DIOLCH. Dymuna Mr Derek Williams, Bron Eilian ddiolch i bawb am y caridau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Hefyd dymuna Mr a Mrs Dylan Lewis, 3 Bro Elidir ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da tra yr oedd Iwan, brawd Sioned, yn yr ysbyty ar ôl cael damwain fawr hefo car, yna Dylan yn cael damwain hefo beic modur ac yntau yn yr ysbyty, ac yna Sioned yn disgyn a thorri ei braich. Diolch am y galwadau ffôn, y cardiau a'r rhoddion. Diolch arbennig i Lona ac Alun.

MARWOLAETH UN O IEUENCTID Y PENTREF. Ar 15 Mehefin, brawychwyd yr ardal pan ddaeth y newydd trist fod Iwan, 5 Bro Elidir wedi cael damwain fawr hefo car yn yr Almaen, a'i fod ef a ffrind iddo yn anymwybodol yn yr ysbyty yn Biclefield, a bod y ddau ar beiriant cynnal bywyd. Fe ehedwyd Alwyn, Margaret a'r hogiau yn syth i'r Almaen. Fe fu Iwan ar y peiriant hyd at y dydd

Iwan Jones, 5 Bro Elidir yn ei wisg swyddogol fel aelod o'r 'Royal Artillery'.

Gwener canlynol. Hwn oedd y diwrnod pryd y bu rhaid i Margaret ac Alwyn wneud y penderfyniad mwyaf yn eu hanes, rwy'n sicr, i adael i'r meddygon droi y peiriant i ffwrdd gan nad oedd gobaith i Iwan druan, ac yntau ddim ond yn un ar hugain oed. Sylweddolwn fod yr edau mor denau rhwng byw a marw.

Bu i'w rieni ddod adref y Sul canlynol ond siom arall iddynt oedd na chafodd corff Iwan ddod gyda hwy. Bu raid iddynt aros am dros wythnos cyn i'r corff ddod i'r wlad hon. Bu hyn yn amser hir iawn iddynt oherwydd y disgwyl am yr alwad i ddweud fod corff Iwan yn cael dod adref.

Bu'r cynhebrwng ar 8 Gorffennaf yn Eglwys Crist Llandinorwig pryd yr oedd y Canon Idris Thomas (un o blant yr ardal) yn gwasanaethu ac yn ei gynorthwyo yr oedd y Parch Roger F. Donaldson, Caernarfon. Darllenwyd y llith gyntaf gan y Gynnwr Craig Marshall, o'r fyddin. Yr oedd yr Eglwys yn llawn a chariwyd cryn nifer o gadeiriau i mewn, ond er hynny yr oedd llawer yn sefyll. Yr ydym yn clywed y dyddiau yma fod yr hen eglwysi yn llawer rhy fawr, ond yn y sefyllfa yma yr oedd hyn yn bell o fod yn wir. Cynhebrwng milwrol a gafodd. Yr oedd yr arch wedi cael ei gorchuddio hefo banner Jac yr Undeb.

Talwyd teyrnged i Iwan gan y Canon Idris Thomas. Dywedodd fod bywyd Iwan wedi cael ei dorri yn drychinebus o fyr ac fel y cofiai ei wylio yn chwarae pêl-droed lawer tro drwy ffenestr tŷ ei fam, ac i'w hogiau yntau ymuno â fo yn y gêm lawer gwaith. Dyna oedd pleser Iwan.

Talwyd teyrnged iddo ar ran y gatrawd yn y fyddin gan yr Uwch Gapten Rob Pizü. Dywedodd fod Iwan yn fachgen hynod o boblogaidd a'i fod yn byw bywyd llawn; ei fod bob amser yn ystyried eraill, a bob amser yn barod ei gymwynas ac y byddai'n golled fawr i'w ffrindiau yn y fyddin.

Cariwyd ei gorff o'r Eglwys i'r fynwent gan chwech o ffrindiau o'r fyddin, a oedd yn amlwg iawn o dan deimlad dwys. Credaf fod deigryn yn llygaid y mwyafrif a rhai o'i ffrindiau yn torri eu calonnau. Yr oedd y gwasanaeth ar lan y bedd yn hynod o deimladwy a thrist iawn.

Margaret, Alwyn a'r hogiau, gobeithio y cewch nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll yma i ddal y golled fawr, ac y byddwch yn gallu cofio y dyddiau da a gawsoch yng nghwmni Iwan. Dymunwn fel ardal ddyddiau gwell i chwi i'r dyfodol. Pob bendith a iechyd i chwi i'r blynyddoed a ddel.

Gweddïwn hefyd dros ffrind Iwan, Robert Stephenson o Lerpwl, sydd yn dal yn anymwybodol ond wedi cael dod i Lerpwl. Gobeithiwn iddo gael gwellhad.

DIOLCH. Dymuna Margaret, Alwyn a'r hogiau ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion, ardal Dinorwig ac ardal Bro'r Eco, am bob arwydd o gydymdeimlad a gawsant yn ystod eu profedigaeth fawr o golli Iwan ym mlodau ei ddyddiau. Bu hyn i gyd o gysur iddynt. Diolch yn fawr i bawb.

Pen-blwydd yn 90 oed

I gyfarch Mrs Baylis ar ei phen-blwydd yn 90 oed ar 18 Mehefin 2002.

Ffenast Meirionfa

Yn ffenast y siop caed nwyddau'r dydd,
Tuniau a the a bisgedi rhydd;
Trwyddi y gwelid y siopwraig glên
Yn trin pob cwsmer â'i sgwrs a'i gwên.

Trwy ffenast y siop bu'n cyfarch stryd
O brynwyr da a ddeuai o hyd;
Trwyddi y gwelai'r fonheddwraig hon
Bawb âi heibio, a'u cyfarch yn llon.

Yn ffenast y tŷ caed nwyddau'r Nef,
Pennill ac adnod amdano Ef;
Trwyddi y mynnodd, y gacaf a'r ha',
Rannu'r newyddion am Fugail Da.

Trwy ffenast y tŷ bu'n cyfarch bro
A datgan ei ffydd yn Nuw ar go;
Trwyddi y ceisiodd gyhoeddi'r Crist
Yn falm i'r clwyfus a ffrind i'r trist.

Yn ffenast y tŷ caed gwylwraig dda
Yn gweled y byd a'i boen a'i bla;
Trwyddi'r estynnodd ei llaw yn rhad
I rannu'r cariad yn enw'r Tad.

Trwy ffenast y tŷ bu'n cyfarch byd,
A chynnig bob dydd air yn ei bryd;
Trwyddi mae hithau yn gweld heb gen
Gariad tragwyddol a Christ yn Ben.

JOHN PRITCHARD

FINE ART TRADE GUILD
ORIEL CWM
Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

Dylan Griffith
TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN
Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd
Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.
24 awr y dydd
Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833
Symudol: 07778 127394

HEFYD
CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Atodiad LLANBERIS

(Pardad o dudalen 14)

ar 15 Medi. Yn naturiol, mae croeso i unrhyw un arall ymuno yn y gwasanaethau yma a fydd wedi eu llunio ar gyfer teuluoedd a phlant o bob oedran.

Ar nos Fercher, 7 Awst, cynhaliodd y Rheithor, y Parch Philip Hughes a Mrs Sandra Hughes, a'r curad, y Barch Vittoria Hancock, noson Caws a Gwin yn y Rheithordy. Daeth nifer helaeth i fwynhau'r danteithion a'r cyfeillgarwch. Bu rhai yn ffodus iawn o ennill ar y raffl a gynhaliwyd yn ystod y noson ac estynnir diolch twymgalon i'r rhai a roes y gwobrwyon ac i Mrs Audrey Evans am ei threfnu. Rhoddwyd yr elw at gronfa'r eglwys.

UNDEB Y MAMAU. Yn Festri Eglwys Sant Padarn y cynhaliwyd y cyfarfod misol a hynny bnawn dydd Mawrth, 9 Gorffennaf. Cymerwyd y gweddïau agoriadol gan Mrs Betty Humphreys. Darllenwyd Cofnodion y cyfarfod blaenorol a derbyniwyd hwy yn gywir. Trafodwyd ac atebwyd sawl llythyr a ddaeth i law yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Penderfynwyd mynd am bryd o fwyd i Ynys Môn gan nad oedd digon o aelodau i gael trip. Naws y pnawn oedd 'dod a phryn' a gwnaed elw bach at y gangen.

Cydymdeimlwyd â Nellie Morris a Bet Hughes am iddynt golli chwaer yng ngyfraith, Gwyneth o Lanrug, ac hefyd â Marion Roberts, Bryn Mêl o golli ei gŵr, John.

Anfonwyd cyfarchion penblwydd at ddwy aelod oedd yn dathlu penblwyddi arbennig, sef Mrs Hilda Williams yn 80 ar 7 Gorffennaf a Mrs Gwen Wliliams yn 70 ar 18 Gorffennaf.

Croesawyd Mrs Clara Roberts yn ôl atom gan nad oedd wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar ac yn wynebu llawdriniaeth y mis nesaf. Brysiwch wella, Clara.

Diolchwyd i Gwen am y lluniaeth ysgafn gan Mrs Nan Owen ac eiliwyd gan Mrs Bet Hughes. Enillydd y raffl oedd Clara.

Diweddwyd drwy adrodd y Gras.

LLONGYFARCHIADAU i Gareth Wyn Roberts a enillodd y gwobrau canlynol yn Sioe Ogwen: *Butterfly Cakes* - cyntaf ac ail; *Welsh Cake* – cyntaf ac ail; Treiniant o flodau sych – cyntaf; Llun allan o ffelt, gwaith tegan meddal ac wy ar blat – cyntaf ac ail. Mae hefyd wedi ennill dwy wobr arbennig yn Sioe Meirionnydd. Mab Rhiannon a Guto, 'Sgeiria gynt ydyw Gareth a brawd Trefor.

PLAS PENGWAITH. Dymunwn bob lwc a hapusrwydd i Mrs Shirley Davies ar ei hymddeoliad o'i swydd gyda ni. Bydd colled yma hebddi ac mae nifer yn holi amdani.

Dymunwn wellhad buan i Karen, sydd adref yn sâl ar hyn o bryd.

Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu Mr Roland H. Jones a fu farw fis Gorffennaf yn yr ysbyty. Cymeriad distaw a pharchus bob amser oedd Rol ac yn di-lol iawn. Mae'n rhyfedd yma hebddo yntau.

Wedi ymgartrefu yn ôl yn ei chartref yn Llanrug mae Mrs A. Jones Eilonwy ac mae pawb yn cofio ati ac yn dymuno'n dda iddi.

Yn dathlu ei phen-blwydd ym mis Medi bydd Mrs L. Owen ac ym mis Hydref bydd Miss M. Williams, Mrs N. Jones a Mrs F. Fisher. Penblwydd Hapus iddynt oll.

Ar 21 Awst cafwyd cyngerdd gan Gerddoriaeth Mewn Ysbyty yn cael ei gyflwyno gan Lois Davies a Iona Jones. Diolch iddynt am roi o'u hamser.

Rydym wedi trefnu dyddiadur wythnosol i'r preswylwyr fel bod gweithgareddau yn mynd ymlaen yn y cartref, e.e. fideo, bingo, siop symudol, trin gwallt, gemau, symud i fiwsig.

CYNGOR CYMUNED. Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal yn "Angorfa", Stryd y Ffynnon, ar nos lau, 12fed o Fedi am 7.00 o'r gloch, ac nid ar y drydedd nos lau o'r mis fel sy'n arferol.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

PRIODAS. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mr Arwel Jones, mab Mrs Dilys Jones a'r diweddar Mr D. E. Jones, 4 Bryn Hyfryd a Miss Norah Campbell o Ynys Skye, Yr Alban, ar achlysur eu priodas ym Mhlas Glyn y Weddw, Pwllheli ar 22 Gorffennaf.

LLONGYFARCHIADAU i Glyn Price, Tan-y-Graig ar ennill gradd B.A. mewn Celfyddyd Gain ym Mhrifysgol Cheltenham. Pob dymuniad da i ti Glyn yn y dyfodol.

PROFEDIGAETH. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Douglas Knight a'r teulu, Bod Dawel, yn ei brofedigaeth o golli ei fam yn frawychus o sydyn tra yma ar wyliau gyda'i theulu.

BEDYDD. Pnawn Sul, 4 Awst yn Eglwys Sant Gabriel bedyddiwyd Harry Salisbury, mab bach Sara a Brent Burman, Tan-y-coed. Gwasanaethwyd gan y Parch Vittoria Hancock gyda Mr Gareth Jones wrth yr organ.

CAPEL Y TABERNACL. Dydd Sadwrn, 13 Gorffennaf, gyda chydweithrediad Teithiau'r Grug, trefnwyd taith ddirgel gan adael Cwm-y-glo i Lanberis a thrwy Fwlch Llanberis i Betws-y-coed ac ymlaen i Ddinbych; i Lanelwy gan aros i siopa yn *Tweedmill*, ac yna i Ruthun i ymweld â'r hen garchar. Yno i'n derbyn oedd Dyfed, gorŵyr y ddiweddar Mrs K. Williams (Stesion gynt) i'n tywys o amgylch y carchar a chafwyd fideo o hanes Coch Bach y Bala. Ymlaen gan aros am orig fer yn Yr Wyddgrug ac yna ymweld â'r Eglwys a'r Ffynnon hanesyddol yn Ffynnongroyw.

Diolch yn ddiffuant i Mr Gwilym Rees Parry a Miss Haf Morris am eu sylwadaeth ar hyd y daith ac i bawb a ymunodd â ni.

Trefn yr oedfaon am fis Medi, yr oll i gychwyn am 4 o'r gloch, fydd:

1: Parch Gwynfor Williams;
8: Mr Derek Jones;
15: Parch O. G. Williams;
22: Mr R. Coetmor Williams;
29: Parch H. Gwynfa Roberts.

CYFEILLION Y CWM. Cynhelir cyngerdd 'Chwedl a Chân' gyda'r band 'Pigyn Clust' ym Mharc Bryn Teg ar 26 Medi ac nid yng nghastell Bryn Bras fel yr hysbysebwyd yn rhifyn olaf yr Eco. Dymunwn ymddiheuro yn ddiffuant i berchnogion Castell Bryn Bras am y camgymeriad.

LLONGYFARCHIADAU i Iola a David, Mona, ar endigaeth eu merch fach, Ffion Erin, chwaer fach i Sion.

DIOLCH. Dymuna Iola a David, Mona ddiolch yn ddiffuant i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth Ffion Erin.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

PWYSIG

Mae sêdd wâg yn ward Deiniolen o'r Cyngor. Os oes rhywun â diddordeb, cysylltwch a'r Clerc.

John B Jones, Ceris, Deiniolen, LL55 3LU. 01286 871 416.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor nôs Fawrth yr 2il o Orffennaf yn neuadd yr Ysgol, Penisa'rwaun. Cadeiriwyd gan y Cynghorydd Richard Llwyd Jones, ef hefyd a offrymodd y weddi. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Mehefin fel rhai cywir. Adroddwyd bod y cysgodfannau bwsiau wedi eu hatgyweirio a'u bod yn edrych yn dda, gobeithio na wneir difrod i gysgodfan Rhydfadog gan bod plant yn cicio pêl ato. Mynegwyd anfodlondeb i ymateb yr Heddlu i gwyn camymddwyn – 'ewch o yma i fyw'.

Croesawyd Mr Phillip Morris o B.T.C.V. Cafwyd crynodeb ganddo o bwrpas a bwriad y mudiad a sut y gallai gynorthwyo mudiadau gwirfoddol i wella'r amgylchedd. Ceisir mwy o fanylion i'w danfon i ysgolion yr ardal. Diolchwyd iddo gan y Cadeirydd.

Cyflwynwyd llythyr y Bnr Dafydd Guto Ifan a'i restr o gwestiynau y dylid eu gofyn ynglŷn â datblygiad Glyn Rhonwy. Penderfynwyd danfon copi i bob aelod a chael trafodaeth yng nghyfarfod Medi.

Cymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru. Penderfynwyd fel arfer, i gynrychioli'r Cyngor yn y Gynhadledd flynyddol yn Aberystwyth fis Hydref.

Partneriaeth Economaidd Gwynedd. Derbyniwyd cyfansoddiad y bartneriaeth a'u hamserlen i enwebu Grŵp Lliwio ar gyfer tymor Medi 2002 – Medi 2003. Mae'r Cynghorydd Len Jones eisioes yn aelod, penderfynwyd cyflwyno enw'r Cynghorydd Hefin Williams.

Llwybrau. – hysbysir Cyngor Gwynedd bod wal ger Corlan y Bont wedi disgyn.

Adroddwyd bod yr hen lôn ger Bryn Coch, Dinorwig wedi ei chau. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd a yw hyn yn gyfreithlon. 'Roedd y darn yma yn hwylus i droi ceir yn ôl.

Adroddiadau:

Cynghorydd Len Jones ar raglen waith Adran Ffyrdd Gwynedd, mac'r cynlluniau isod naill ai wedi eu dechrau neu i'w gwneud yn fuan:

Gallt y Foel, Deiniolen,
Saron / Bethel,
Tŷ Mawr / Cyffordd Rhiwlas,
Gors Bach / Bethel.

Hefyd mynegwyd pryder bod benthyciadau o'r llyfrgelloedd yn disgyn yn raddol.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf – 3ydd o Fedi 2002

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn
Ffôn: 650218

Brian a Rita Henderson
SIOP Y PENTREF
WAUNFAWR
Ffôn: 650589
• Holl docynnau'r Loteri Genedlaethol
• Cyflenwyr bwyd anifeiliaid – 'bulk' a rhydd – y rhataf yn lleoll
• Nwyddau groser, alcohol, cardiau MANWEB
• 'Paypoint' ar gyfer talu bob math o filiau

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CYNGOR CYMUNED.
Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Y Waunfawr yn Y Ganolfan, Waunfawr ar nos Lun, 29 Gorffennaf. Roedd y Cyng Vera Roberts a Clive James yn bresennol.
Ym mhresenoldeb cynrychiolwyr yr Heddlu, dangoswyd siom fawr nad oedd gorfodaeth digonol ar y cyflymder 30 m.y.a. trwy'r pentref, ond egni di-ri i atal gyrrwyr gofalus rhag mynd adra'n gyfreithlon. Siomedig eto oedd yr ymateb i'r cais, ers misoedd, i godi arwydd 'Dim gemau pêl' ar y polyn golau stryd ym Mryn y Gof. Mae Adran Traffig yr Heddlu yn archwilio i dawelu'r traffig trwy a heibio Caeathro.
Argymhellodd y Cyngor ganiatau cyfleusterau toiled dros dro am 5 mlynedd yn unig cyn i'r Geidiaid adeiladu bloc parhaol.
Yr angen am dorri'r gordyfiant ar ddwy ochr y lôn rhwng Garej Gwalia a Lôn Caeathro Bach a thrwsio Pont yr Efail Bach oedd neges arall i sylw Cyngor Gwynedd.
MIRI HAF. Diolch i ymdrechion aelodau'r Pwyllgor Cae Chwarae cynhaliwyd prynhawn o Firi Haf ar y cae chwarae. Roedd rhoddion y Tynfa Misol yn galluogi'r Pwyllgor i ddarparu'r Miri yn rhad ac am ddim. Roedd cyfle i'r Capel a'r Ganolfan godi £230 tuag at gostau'r gwaith adnewyddu.
BARBACIW. Cynhaliwyd noson hefo barbaciw ac adloniant gan 'Montre' yn sgubor Llain Meddygon, diolch i Kitty a Vernon Jones. Gyda chymorth parod aelodau Côr Meibion Caernarfon, Cwmni Cig Arfon a merched y Pwyllgor Codi Arian roedd bwyd blasus ar gael. Enillwyr y raffl oedd Eryl Jones, Sian Owen, Alwyn Jones, Huw Jones, Alison Lovell, R.M. Roberts, Rhys Jones a Denis Môn. Fel canlyniad codwyd £606 ar gyfer costau adeiladu'r Ganolfan.
MABOLGAMPAU YSGOL Y BONTNEWYDD.
Llongyfarchiadau i Gwion ac Osian, Bryn Mair; Lowri a Betsan, 4 Erw Wen: Katie Megan, Bodawel; Hannah, Llyngele ac Adrian, 23 Tai Glangwna ar eu llwyddiant yn chwaraeon yr ysgol gynradd.
TYNFA MISOL. Enillwyr mis Gorffennaf oedd:
£40: (66) Mrs Hughes, 10 Tai Glangwna; £25: (87) Sheila Liptrot, Lynlea; £15: (25) Alwen Roberts, 4 Caeathro Bach; £5: (51) Dafydd Roberts, 5 Tai Brynteg.
Enillwyr mis Awst oedd:
£40: (93) Rosie Lloyd, 2 Rhosbach; £25: (73) Marian Huws, Tŷ Mawr; £15 (13) Pete a Vera Hughes, Pennant; £5: (38) John ac Anwen Pritchard, Ty'n Gors Newydd.
NAIN A THAID. Llongyfarchiadau i Norma a Cadwaladr Evans, Llecyn Clyd ar enedigaeth ŵyr, Daniel Cadwaladr, mab i Aaron a Nicola Evans ar 29 Gorffennaf 2002.
GENEDIGAETH. Llongyfarchion i Mark a Mannon, 4 Tai Glangwna ar enedigaeth eu plentyn yn ddiweddar.
APÈL AM OFFER. Pe bai rhywun wedi prynu oergell neu bopty newydd yn ddiweddar, byddai Pwyllgor y Cae Chwarae yn hoffi derbyn cyfle i uwchraddio'r cyfleusterau cegin ym Mhafiliwn y Pafiliwn.
CYFLENWAD NWY PIBELL. Methiant fu'r ymdrech i geisio darbwyllo cwmni Transco (Nwy Cymru gynt) i ddarparu nwy trwy bibell i Gaeathro. Roedd y cwmni yn gofyn am ffi o £1,820 (heb Dreth ar Werth) i gysylltu eiddo â phibell. Felly nid oedd syndod clywed na fu digon o gwsmeriaid yn fodlon talu'r arian angenrheidiol.
GWOBR Y FLWYDDYN. Esmor Hughes, Tyddyn Gae, oedd Myfyriwr y Flwyddyn Coleg LLysfasi. Yn ogystal ag ennill Diploma Genedlaethol mewn Contractio Amaethyddol, enillodd Gwpan Gilbert Kelly a Gwobr y Brodyr Jones. Dafydd Iwan oedd y gŵr gwadd a chyflwynodd Bethan Iwan y gwobrau i Esmor.
GWASANAETHAU'R CAPEL.
Bydd y gwasanaethau a'r Ysgol Sul yn parhau yn Ystafell y Bwrdd, Garej Gwalia am ychydig o wythnosau. Dyma'r patrwm ar gyfer mis Medi:

1: 2.00: y Parch Ronald Williams;
8: 11.00: Ysgol Sul;
15: 11.00: Ysgol Sul; 2.00: Parch Dafydd Hughes.
22: 11.00: Ysgol Sul;
29: 11.00: Ysgol Sul.

Bydd cyfarfod o athrawon a chynorthwywyr yr Ysgol Sul (presennol a gwirfoddolwyr newydd) ym Mryngwna am 7.00 yr hwyr nos Iau, 5 Medi.
PWYLLGOR CODI ARIAN Y GANOLFAN. Bydd cyfarfod o'r Pwyllgor ym Mryngwna am 7.30 yr hwyr nos Iau, 12 Medi. Bydd rhaid cwblhau'r trefniadau ar gyfer Theatr Bara Caws ar 4 Hydref a Noson Lobsgows a Gwin ar 1 Tachwedd.

Cofnogwch ein Hysbysebwyr

Rhes ôl (chwith i'r dde): Gwion, Llŷr, Owain, Gwyneth, Arian, Sasha, Megan, Lowri. Rhes flaen: Hywel, Elan Katie, Betsan, Osian a Dewi. Nid yw Dafydd yn y llun.

TAITH NODDEDIG YR YSGOL SUL. Ar Sul braf ym mis Mehefin aeth 15 aelod o Ysgol Sul Capel Caeathro ar daith gerdded am 5 milltir ar hyd Lôn Las Menai o Gaernarfon i Lanfairisgaer. Fel canlyniad casglodd yplant £256.50 tuag at Gronfa Adnewyddu'r Capel. Diolch yn fawr i'r plant a'u noddwyr.

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
www.ybistro.co.uk
Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

H. E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
FFôn: 870444

• Gwerthwyr Glo ac
• Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Silver STAR
GWYLIAU SEREN ARIAN
. PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
. TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
. TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
. BWSIAU MODERN A MOETHUS
. GWESTAI O SAFON
. CWMNI TEULUOL
. MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.
Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

BEICS WIL

BEICIAU NEWYDD
AC AIL LAW
• TRWSIO • CYNNAL
• PARTIAU

SIOP AROSFA, WAUNFAWR (01286) 650 723

Cofio Gwenllian
– yn Sempringham

Bu Mr Leslie Roberts, Clwt y Bont ar ymweliad â Swydd Lincoln. Yno, yng nghanol gwastadeddau'r ffendir daeth ar draws Eglwys Sant Andreas yn Sempringham, safle un o sefydliadau mynachaidd mwyaf Lloegr ar un cyfnod. Fe'i sefydlwyd gan Gilbert, mab uchelwr Normanaidd o'r enw Jocelin a briododd ferch o Saesnes. Hawliodd hithau iddi dderbyn arwydd y byddai'r mab a aned iddi yn ennill enwogrwydd. Breuddwydiodd i'r lloer lanio ar ei glin fel arwydd o enwogrwydd y mab. Ond siomwyd y rhieni oherwydd i'r bachgen gael ei eni ag anabledd difrifol. Fe'i hanfonwyd i Ffrainc, ond dychwelodd i Sempringham gyda'r awydd i genhadu dros Grist.

Mewn amser, sefydlodd briordy yn Sempringham, gan gynnig addysg elfennol i fechgyn a merched yr ardal; rhywbeth chwyldroadol iawn yn y dyddiau cynnar rheini. Erbyn 1139 roedd Gilbert wedi cael tir ger yr eglwys i adeiladu priordy. Dangosodd cloddio gan archaeolegwyr fod yr adeiladau wedi bod o faint sylweddol, ac mai yma y sefydlwyd Urdd y Gilbertiaid – yr unig urdd mynachaidd a sefydlwyd yn Lloegr. Yn 1148 cydnabyddwyd yr Urdd gan y Brenin Edward III a'i gosod dan warchodaeth y Pâb. Parhaodd mewn bodolaeth hyd 1538 pan ddiddymwyd y mynachlogydd.

I'r priordy hwn yn Sempringham yr anfonwyd Gwenllian, merch Llywelyn ein Llyw Olaf, yn faban bychan. Yn 1283 ysgrifennodd Edward lythyr i'r Urdd yn Sempringham yn gofyn iddynt dderbyn Gwenllian i'r priordy. Yma y treuliodd ei holl fywyd, yn garcharor o leian. Arhosodd Edward III yn Sempringham am ychydig ddyddiau yn 1327 a chaniataodd bensiwn blynyddol o ugain punt i Gwenllian am weddill ei bywyd. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, bu farw Gwenllian ar ôl treulio'i holl fywyd o bumdeg a phedair o flynyddoedd yn y priordy. Mae'n bosibl na wyddai unrhyw air o Gymraeg. Sillefir ei henw yn 'Wencilian', ac mae'r unig lythyr a ysgrifennodd Gwenllian ei hun wedi ei arwyddo ganddi yn 'Wentliane'.

Tyfodd Urdd y Gilbertiaid i gynnwys 26 o fynachlogydd, 700 o fyneich a 1,300 o leianod. Yn 1989 dathlwyd 800 mlynedd ers marwolaeth sefydlydd yr Urdd, ac y mae cofadail wedi ei hadeiladu i gofio am Gilbert. Mae cofeb yno hefyd i Gwenllian, wedi ei chodi drwy danysgrifiadau.

DAWES TREK

ENERGY CYCLES
60 Stryd Fawr
Llanberis
Beics a Barcudau

Partiau a Thrwsio Beics
Beics Ffordd a Mynydd,
BMX, Triathlon
Barcudau Hwyl, Chwaraeon
a Delta *Powerkites*.
Dewis Da

EC
www.energycycles.com
07980 742584

Oriau Agor
Gaeaf: 5 diwrnod yr wythnos:
Iaw, Gwener, Sadwrn, Sul, Llun
Haf: 7 diwrnod yr wythnos ar agor tan 6 pm

07980 742584 • 01286 871892 sales@energycycles.com

Airborne OZONE

Vanta yn Ôl

Ar nos Fawrth Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi, yn Neuadd Goffa Solfach, dychwelodd y grwp roc Vanta, o Fethel a Llanrug, i'r llwyfan am y tro cyntaf ers bron i naw mis. Er i 2001 fod yn flwyddyn lwyddianus i'r hogia – gyda'u cryno ddisg gyntaf, Pedair *Stori Fer e.p.* yn derbyn clod mawr gan y wasg, ac hefyd yn gwerthu'n llwyddiannus – bu Vanta'n ddistaw iawn ers eu perfformiad llwyddianus yn y Ddawns Ryng-Golegol yn Aberystwyth fis Tachwedd diwethaf.

"Efo'r pedwar ohona ni mewn gwahanol golegau, mae hi'n reit anodd arna ni beth bynnag," eglurodd Steven Williams, gitarydd y band. "Yn enwedig rwan efo ninnau yn ein blynyddoedd olaf yno. Ac efo Ger a Mei [drymiwr a phrif leisydd y band] yn graddio yr haf yma, 'da ni i gyd 'di gorfod bod yn brysur iawn yn gwneud pethau eraill, felly fuodd raid i ni wthio Vanta i un ochr am ychydig."

Ond ni anghofiodd yr hogia yn llwyr am y band yn ystod cyfnod prysur hanner cyntaf 2002. Yn wir, buont yn treulio pob eiliad sbar oedd ganddynt yn ystod y misoedd diwethaf yn stiwdio Fflach, Aberteifi yn recordio eu hail gryno ddisg *Dagrau Llawenydd e. p.* – a ryddhawyd ar ddiwedd mis Gorffennaf, ar label RASP (sef is-label Fflach).

Hyd yn hyn mae'r caneuon newydd wedi mwynhau derbyniad da gan y wasg, a gorsafoedd radio fel Champion FM a Radio Cymru. Cafodd yr e.p. ei gwneud yn "c.d. yr wynos" ar raglen Dafydd Du, ac mae'r cyflwynydd Jonsi yn gefnogwr brwd o Vanta, ac yn chwarae caneuon y grŵp yn aml ar ei raglen foreol. Mae'r ffaith fod Vanta wedi dychwelyd i'r llwyfan yn ystod y mis diwethaf hefyd wedi bod yn gymorth i ennill cefnogaeth i'r c.d. newydd, gyda'u perfformiad gwych yng ngwyl Miri Madog yn ddiweddar yn derbyn canmoliaeth fawr.

Teimla'r grŵp fod eu sŵn wedi datblygu ac aeddfedu tipyn ers eu *Pedair Stori Fer*, ac yn bendant mae'r amrywiaeth ar y gryno ddisg newydd yn profi hynny. *Mae Dagrau Llawenydd e.p.* yn cynnwys pedair can Gymraeg ac un Saesneg, gyda arddull y caneuon yn amrywio o fod yn roc pwerus, mewn caneuon fel "Llawenydd (Efo Ti)" a "Summer Song", i fod yn sŵn mwy hafaidd yn "Yr Ochr Arall", ac yn sŵn llinynnol trist ar y gân "Dagrau (Efo Ti)", sy'n cloi'r e.p.

Da yw gweld Vanta, ynghyd â nifer o fandiau lleol eraill, fel Epitaff, Caban, a'r Gogz, yn mwynhau llwyddiant, a gyda'r tymor coleg newydd yn prysur agosau, a llwythi o fyfyrwyr newydd i greu argraff arnynt, ni fydd Vanta yn cymryd fawr o seibiant am dipyn, gyda rhai gigs i hyrwyddo *Dagrau Llawenydd* wedi cael eu trefnu ar gyfer y misoedd nesaf yn barod. "Mae'n braf bod yn ol," medd Steve "felly dydan ni ddim yn bwriadu cymryd seibiant arall am dipyn".

Mae *Dagrau Llawenydd e. p.* ar gael ym mhob siop recordiau a siop Gymraeg dda ac yn bendant yn werth ei chael.

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CLWB 300. Dyma restr enillwyr y Clwb 300 am fis Mehefin:
£40: Mrs Jean Jones, Llwyn Onn; £25: Mr E.W. Williams, 8 Bro Waun; £10: Mrs Olwen Owen, 23 Tref Eilian.
Enillwyr mis Gorffennaf:
£40: Mr Tegid Pritchard, Cartref; £25: Mr Don Roberts, Sŵn y Gwynt; £10: Mr Wyn Griffith, Gernant.
Enillwyr mis Awst:
£40: Mr Elfyn Griffith, 6 Tŷ Hen; £25: Mr G.W.O. Cole, 6 Bro Waun; £10 Mrs Marian Jones, Cae Trefor, Groeslon.

DIOLCH. Dymuna David Greasley, Min Afon, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ym Manceinion yn ddiweddar.

EISTEDDFOD. Fe gynhelir noson yn y Ganolfan ar 11 Medi am 7.30 o'r gloch i bawb sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y timau ar gyfer yr eisteddfod eleni, er mwyn dewis dau gapten.

MERCHED Y WAWR. Nos lau, 27 Mehefin, i ddiweddu gweithgareddau'r tymor aeth yr aelodau i ymweld â gardd ac oriel yr artunydd Keith Andrew yn Llandrygarn, Ynys Môn. Mwynhawyd orig ddifyr dros ben yn crwydro drwy'r ardd gysgodol, liwgar ac yn edmygu gwaith yr artunydd yn yr oriel. Roedd poced ambell un gryn dipyn yn wacach yn mynd yn ôl i'r bws! Aed ymlaen wedyn i Dafarn y Rhos, Rhostrehwfa i fwynhau pryd blasus a sgwrs yng nghwmni'n gilydd.

Cyn troi tuag adref cyfeiriodd Irene, y Llywydd, at farwolaeth ddisymwth Mrs Katie M. Jones, un o'n cyn-aelodau ffyddlon, gan gydymdeimlo ag aelodau'r teulu. Hefyd, dymunodd wellhad buan i Rhiain, Trefeilian a gipiwyd i'r ysbyty ddeuddydd cyn y trip yr oedd wedi edrych ymlaen cymaint amdano. Diolchodd i bawb a drefnodd y trip ac am bob cefnogaeth a gafodd gan yr aelodau drwy'r tymor.

Enillwyd y rafflau, rhoddedig gan Mrs Mary Evans, Trefeilian ac Irene, gan Beryl ac Olwen.

Bydd y tymor newydd yn dechrau ar y pedwerydd nos lau ym mis Medi ac mae croeso mawr i aelodau newydd ymuno â ni am 7.30 yn y Ganolfan.

LLONGYFARCHIADAU i Mararid Gordon, Bryn Golau ar lwyddo yn yr arholiad Piano Gradd 3 gyda theilyngdod, ac i Gwion Tomos, Ty'n Llidiart, yntau hefyd wedi llwydo yn yr un arholiad. Da iawn chi a daliwch ati.

PEN-BLWYDD. Bu Emma Davies, Hafan yn dathlu cyrraedd ei deunaw oed a Rhian Griffith, Stad Tŷ Hen yn dathlu cyrraedd ei un ar hugain. Dathlu cyrraedd ei 80 oed y bu Mrs Alice Hughes, 3 Bryn Golau. Llongyfarchiadau i chi a phob dymuniad da i'r dyfodol.

DIOLCH. Dymuna Mrs Hughes ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r blodau a dderbyniodd, ac i'r plant am drefnu parti yn ddiarwybod iddi.

GANMOL GWAITH DA. Derbyniodd Pryderi Thomas, Stad Tref Eilian yr ail safle am ysgrifennu nofel yn ei flwyddyn yn Ysgol Syr Hugh Owen.

DYWEDDÏO. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Elin Gwilym, Llidiart Wen ar ei dyweddïad ac Arwyn Evans o Ben-y-groes

PRIODAS. Dymunwn yn dda i Iwan Ellis, Ty'n Llidiart ar ei briodas ac Anwen Ebeneser o Bow Street, Aberystwyth. Maent wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd.

PEN-BLWYDD PRIODAS. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Pat a Raymond Parry, Ffridd Felan a fu'n dathlu eu Priodas Ruddem.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Christine a Gary Davies, Hafan ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ganwyd wyres fach, Ela, merch fach i Elwen a'u mab Andrew.

Ganwyd mab bychan, Gethin Rhun, i Catrin ac Alun, Stad Groesywaun hefyd, ŵyr bach i Ginna Gwyrfai, Stad Tŷ Hen. Croeso mawr i'r rhai bach i'n plith.

LLWYDDIANNAU ADDYSGOL. Rydym yn ymfalchïo ac yn llongyfarch ein pobl ifanc ar eu llwyddiant yn yr arholiadau y buont yn eu sefyll yn ddiweddar. Dymunwn yn dda i bob un ohonynt yn y dyfodol.

SWYDDI NEWYDD. Llongyfarchiadau i Eleri Anderson, 3 Stad Glyn Afon, sydd wedi cychwyn gyrfa fel byd-wraig yn Ysbyty Gwynedd wedi iddi lwyddo yn ei harholiadau.

Dymunwn yn dda hefyd i Huw Gwilym, Llidiart Wen, sydd bellach yn Dr Huw Gwilym ac yn dilyn ei yrfa ymhellach yn Ysbyty Gwynedd.

Bydd Elin Mair Hughes, Dolwyn yn cychwyn gyrfa fel 'Swyddog Probation' wedi iddi hithau lwyddo yn ei harholiadau.

Dymunwn yn dda i Iwan Arwel Davies, Bryn Melyn fydd yn cychwyn swydd newydd fel Prifathro Ysgol Llanfrothen.

Dymunwn yn dda i Mrs Ann Elfryn, Coed Gwydryn, yn ei swydd newydd gyda chwmni Ffilmiau'r Nant ac i Mrs Cadi Jones, Nant, sydd wedi newid swydd o fewn y byd addysg.

YMDDEOLIAD. Gyda'r holl gychwyn gyrfaoedd a newid swyddi, cael mwynhau ymddeoliad y bydd Mrs Mary Jones, Llwyn Afon, 'Anti Mary' i blant yr ysgol lle bu'n gweithio yn y gegin am nifer o flynyddoedd. Dymunwn ymddeoliad hapus iawn i chi.

Dymunwn yn dda i Sylvia Thomas fydd yn cychwyn ei gwaith yng nghegin yr ysgol.

LLONGYFARCHIADAU i un o athrawon yr ysgol, Miss Sioned Grabowski, ar ei phriodas yn ystod gwyliau'r haf. Mrs Hughes fydd hi yn dod yn ôl yma ddechrau Medi.

DYMUNA aelodau y ddwy Ysgol Sul ddiolch i swyddogion Ysgol Sul Capel Seilo, Caernarfon am drefnu 'Miri Haf' yr ysgolion Sul eleni. Cawsant ddiwrnod da iawn yn Ysgol Brynrefail i ddiweddu eu tymor.

DYMUNWN yn dda i bob un fydd yn cychwyn gyrfa mewn ysgol, coleg a swydd ar derfyn gwyliau'r haf a gadewch inni wybod am eich llwyddiannau.

CROESO ADREF O'R YSBYTY. Gorfu i Fflur Llywela, Stad Tref Eilian; Mr Bill Lewis, Stad Tref Eilian; Aled Taylor, Dol Erddi; Mrs Katherine Williams, Tref Eilian; Mr Wyn Griffith, Ger y Nant; Megan Thomas, Angorfa; Cai bach Cartrefle a Rhys bach Dol Erddi dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Braf cael dweud eu bod adref erbyn hyn a dymunwn wellhad iddynt.

Bu Mr David Greasley, Minafon yn derbyn llawdriniaeth galon mewn ysbyty ym Manceinion. Mae adref erbyn hyn ac yn gwella o ddydd i ddydd.

Gorfu i Rhiain Llywela, Tref Eilian dreulio cyfnod yn yr ysbyty ac yno yr oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 60 oed. Da cael dweud ei bod adref erbyn hyn. Pen-blwydd hapus i ti Rhiain.

Yn dilyn damwain car ar y ffordd i Gaernarfon gorfu i Mrs Iola Jones, Bron Eifion dreulio amser yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad buad iddi.

Derbyniodd Angharad Owen, Stad Tŷ Hen a Neil, Ty'n Twll driniaeth i'w penglin a bu Roy Jones, Cynefin, yn derbyn triniaeth i'w lygaid yn Ysbyty Gwynedd.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau i Mrs Catherine Williams, Tŷ Hen, sydd yn yr ysbyty ym Mangor ar hyn o bryd.

Hefyd anfonwn ein cofion at Mr Wil Jones, Arosfa sydd wedi gorfod dychwelyd i'r ysbyty.

PROFEDIGAETHAU. Yn frawychus o sydyn ddiwedd mis Mehefin, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs Katie Jones, Gorwel. Roedd yn gymeriad hoffus, yn ffrind i amryw yn y pentref a'r ardal ac yn gefnogol iawn i lawer cymdeithas a gweithgaredd. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf i'w theulu yn eu profedigaeth.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Cemlyn Williams o Dalysarn, a oedd wedi gweithio yn Garej Pant y Waun am nifer o flynyddoedd. Cydymdeimlwn â'i deulu yn eu colled.,

Anfonwn ein cydymdeimlad at llid ac Ifan Lewis, Tai Isaf gynt, yn eu colled o golli eu chwaer, Gwen.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Mr Eric Williams o'r Bontnewydd.

CROESO yn ôl i'r Waun i Dafydd Jones (mab Gwilym Madog ac Emsul). Mae ef a'i deulu, Nia ei wraig a'r plant, Iwan ac Elan, wedi ymgartefu yn Dwyfor.

ADREF AR WYLIAU. Rwy'n siwr fod Mrs Enid Wiliams, Heli yn falch o gwmni lorwerth a'i deulu am gyfnod o wyliau o Ynysoedd y Caymen.

ANRHYDEDDAU YN DOD I'R WAUN. Yn Sioe Llanelwedd ym mis Gorffennaf, bu i ddau o 'hogia'r Waun' gael cryn sylw. Estynnir llongyfarchion cynnes i Harold Tecwyn Peters, Ty'n Cae Newydd ar dderbyn Medal o law y Dywysoges Anne yn y Sioe, wedi hir wasanaeth ym myd amaethyddiaeth. Yr anrhydedd yma'n dod i Harold wedi iddo fod yn gweithio ar wahanol ffermydd am 45 mlynedd, chwech ar hugain o'r rhain ar fferm Plas Tirion, Llanrug. Er wedi ymddeol, nid yw wedi troi ei gefn yn llwyr ar y tir nac ar anifeiliaid gan ei fod yn amaethu erwau Ty'n Cae Newydd gyda'r un arddeliad.

Yn y Sioe hefyd derbyniodd Dei Tomos, yn awr o Nant Peris, ond gynt o Bryn Elen, ffon bugail gan Undeb Amaethwyr Cymru wedi iddo gael ei ethol yn 'Ohebydd Amaethyddol gorau y flwyddyn'. Estynnir ein llongyfarchion i Dei yn ogystal a phwy a ŵyr na fydd derbyn y ffon yn arwain at wireddu ei ddymuniad pan yn blentyn yn adrodd yn Eisteddfod y Waun, flynyddoedd yn ôl, i fod yn berchen y 'ddafad gorniog honno ac arni bwys o wlân'!

Yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhyddewi mis Awst, cyflwynwyd Medal Syr T. H. Parry Williams i R. Gwynn Davies, Bryn Eithin am ei waith yn sefydlu Antur Waunfawr ac am ei hir wasanaeth arloesol gyda phobol ifanc ag anawsterau dysgu. Aeth llond bws mini o'i gyfeillion a gweithwyr yr Antur i Dyddewi i gefnogi Gwynn ar y diwrnod hanesyddol.

Dilynodd Mr H. O. Jones (Wmffra), Glaslyn ôl troed ei gyfaill Mabon yn yr Eisteddfod eleni. Derbyniwyd ef yn aelod o Orsedd y Beirdd am ei gefnogaeth i'r Eisteddfodau llai dros nifer o flynyddoedd. Fel Garmon yr adnabyddir ef yng Ngorsedd. Llongyfarchiadau cynnes iawn i'r ddau am dderbyn yr anrhydeddau eisteddfodol hyn.

Y trydydd person o'r poetnref i amlygu ei hun yn yr Wyl oedd Meg Elis, Glanfa, a oedd yn un o feirniaid cystadleuaeth Y Fedal Ryddiaith.

Yn ôl y sibrydion, Twm Morus oedd yr ail yng nghystadleuaeth y Gadair yn yr Eisteddfod. Ar un cyfnod bu yntau yn byw yn y Waunfawr.

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

DIOLCH. Dymuna Theresa Jones, 6 Nant Ffynnon, ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 50.

PEN-BLWYDD HAPUS i John Wyn, Hafod sydd hefyd yn dathlu ei ben-blwydd yn 50 ar 28 Medi.

GWELLHAD BUAN i Ellie, wyres Ken a Mair, Beudy Mawr, sydd yn Ysbyty Alder Hay, Lerpwl.

FFAIR NANT. Roedd 18 Medi yn ddyddiad pwysig yn y Nant ers talwm – diwrnod y byddai pawb yn edrych ymlaen ato am fisoedd – Diwrnod Ffair Nant wrth gwrs. Ffair amaethyddol ydoedd yn wreiddiol ond cafwyd llawer o hwyl ar y diwrnod hefyd gan fod nifer o stondinau a gweithgareddau gwahanol ar gael yno. Mae'n fwriad yn y pentref i gynnal gŵyl o hwyl yn ystod yr wythnos honno yn mis Medi er mwyn parhau â'r traddodiad. 'Gŵyl y Ffair' fyddai hon gyda nifer o weithgareddau a stondinau o ddydd Sul, 15 Medi tan ddydd Sadwrn, 21 Medi. Penderfynwyd y byddai'n syniad cynnal un gweithgaredd gwahanol bob noson yn ystod yr wythnos – dyma gynllun bras:

Drwy'r wythnos: Cystadlaethau Cartref, ac os am gystadlu yn y cystadlaethau hyn rhaid cyflwyno pob ymgais yn Nhy'n Llan ar ddydd Sadwrn, 14 Medi ble cewch eich beirniadu a'ch gwobrwyo.

1. Cystadlaethau Coginio
- a) At 11 oed: 6 bisged;
- b) 12-16 oed: Cacen sbwng;
- c) Oedolion: Bara Brith;
- ch) Cacen siocled (agored i bawb)
- d) Cacen gri (agored)
- dd) Oedolion: Gwin cartref

2 Cystadleuaeth Arlunio / Ffotograffiaeth: (Dau gategori (Oedolion a phlant dan 15)
- a) Llun o Nant Peris (wedi ei dynnu â chamera; Unrhyw lun – boed yn llun o bobl neu o dirlun;
- b) Dan 8 oed: Peintio llun o glown
- c) Dros 8 oed: Peintio llun o Nant Peris;
- ch) Oedolion: Darlun o Eryri.

3. Cystadlaethau Gwnïo
- a) Gwau neu grosio dilledyn ar gyfer babi neu ddol;
- b) Llun 'embroidery' (unrhyw bwyth);

Am fwy o wybodaeth am y cystadlaethau cartref, cysylltwch â Mrs Gwenda Roberts, Glanrafon ar 872177.

Dydd Sadwrn, o 10.00 tan 6.00 yr hwyr: Agor yr eglwys ar gyfer cynnal Gŵyl Flodau. Anogir pawb i gymryd rhan! Y syniad yw fod pawb yn cyflwyno tusw o flodau i addurno'r eglwys. Plant i ysgrifennu eu henw gyda blodau.

Dydd Sul: Cymanfa Ganu yn yr eglwys am 6.00 y.h.

Dydd Llun: Bingo yn Nhy'n Llan am 8.00 y.lh.

Dydd Mawrth: Cwis yn Nhy'n Llan am 9.00 y.h.

Dydd Mercher: Cystadleuaeth Pŵl yn Nhy'n Llan am 7.00 y.h.

Dydd Iau: Helfa Drysor yn cychwyn o'r Maes Parcio am 6.30 y.h.

Nos Wener: Bydd canwr a noson carioci yn y dafarn.

Dydd Sadwrn: Diwrnod o hwyl. Dechreuir y diwrnod gyda sêl cist car ym maes parcio Ty'n Llan am 10 a.m. Codir £5 am bob car. Croeso i bawb.

Gobeithir trefnu nifer o weithgareddau a gemau gwahanol ar gyfer y prynhawn Sadwrn. Bydd stondinau amrywiol i'w cael a chystadlaethau megis *Tug O' War*, ras rowlio casgenni, 'gemau gwirion', ras hwyaid, rasus i blant, castell neidio, raffl, tombola, sioe gŵn, cystadleuaeth y fuwch! ayyb. Os oes gan unrhyw un syniadau eraill ynglŷn â sut i ddathlu Ffair Nant, y mae croeso cynnes i chwi fynychu'r cyfarfod a gynhelir bob nos Fawrth tan y dyddiad. (Ty'n Llan am 7.30 y.h.)

CARNIFAL. Cynhaliwyd ein carnifal blynyddol ar nos Wener, 26 Gorffennaf ym maes parcio'r pentref. Cafwyd noson llawn hwyl ymhlith y stondinau a'r cystadlaethau lu a braf oedd gweld cymaint o bobl yn mwynhau!

Hoffai aelodau'r pwyllgor ddiolch o galon i'r gwirfoddolwyr a helpodd i drefnu'r noson ac i'r holl unigolion a busnesau lleol a gyfrannodd yn hael tuag at ein raffl a'n stondinau. Diolch yn arbennig i'r Parc Cenedlaethol am ganiatâd i ddefnyddio'r tir; i Mr Gwynedd Roberts am fod yn 'MC' unwaith eto; i Frenhines Carnifal Llanberis a'i gosgordd; i Miriam, brenhines Nant Peris, ac wrth gwrs, i'n tri beirniad: Mr a Mrs Elwyn Wilson Jones a Mr Raymond Jones am eu gwaith caled yn ystod y noson. Diolch hefyd i fand bach Llanrug; clwb Karate Llanberis a dawnswyr disgo Llanberis am ein diddori.

NOSON GWIS. Cynhaliwyd y noson gwis yn Nhy'n Llan ar 23 Gorffennaf. Diolch yn fawr i Mr Meirion Griffiths am drefnu'r cwis a llongyfarchiadau i'r tîm buddugol.

NOSON PŴL: Enillydd Tarian Goffa Selwyn Davies oedd John Ellis yn dilyn gêm gyffrous iawn yn erbyn Aled Davies. Diolch i John am drefnu'r noson.

HOFFEM ddiolch i Anne a Jim, Ty'n Llan am eu cyfraniad a'u cefnogaeth ac am roi caniatâd i ni ddefnyddio eu tafarn i gynnal y ddwy noson.

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Ceisio Amddiffyn



Sylwch da chwi ar y patrymau a berthyn i'r *glöyn byw* yn y ffotograff a gynhwyswyd uchod. Yn dd-ios ym myd Natur y mae 'na greaduriaid sy'n ceisio'u hamddiffyn eu hunain rhag gelynion, a dyma beth a ddywaid D.J. Evans yn *Dirgel Ffyrdd* (1960): Meddyliwch am y creaduriaid hynny sy'n dwyn nodau lliwgar amlwg ar eu cefnau, yn ddu neu'n goch neu'n felyn neu'n wyn. Yn geffredin, dyna liwiau rhybuddiol, meddir, yn gweiddi'n groch... nad gwiw ymyrryd ar berygl bywyd, â'r hwn a'i dwg.

Y llynedd, a hynny mewn adeilad a gynhwysai gannoedd ar gannoedd o loynod byw, tynnais ffotograff sydyn o'r *glöyn byw* trofannol uchod. Profad bythgofiadwy, wir i chi! Mae'r patrymau'n ymddangos fel llygaid ac yn gwarchod y glöyn byw rhag ei elynion drwy godi ofn arnynt. Cof gennyf ddarllen, rai blynyddoedd yn ôl, am *wyfynod* gwynion mewn trefi a dinasoedd, a'r muriau a'r strydoedd wedi eu heffeithio'n drwm â mwg simneydd, yn newid eu lliwiau yn gyfangwbl, a'r cyfan er mwyn cyd-weddu â'r amgylchfyd. Gwnâi hynny hi'n anos i'w gelynion eu canfod.

O dro i'w gilydd daw i'n sylw hanesion *elyrch*, a'r gwryw, ran fynychaf, yn mynd ati i godi un o'i gocsau, a chlecian ei adenydd yn wyllt. Yn ogystal â hisian yn uchel, fe all meinaps eich erlid. Amddiffyn yr iâr a'r cywion a wna. Ei nod yw amddiffyn ei libiart a'r hyn a berthyn iddo. Yn goron ar y cyfan gwelais eleni, ar fferm yn nalgylch *Eco'r Wyddfa* rywbeth nac a welais cyn hyn, sef ceiliog, nad yw eto'n flwydd oed, a cheiliog paun pur ifanc, yn ymosod ar ei gilydd. Am bum munud wedi pump o'r gloch un nos Fercher, yr ail wsnos ym mis Chwefror, y flwyddyn 2002, y digwyddodd hyn i gyd, pryd 'r oedd dau aderyn ben-ben â'i gilydd. Neidiai'r paun damaid yn uwch na'r ceiliog. Roedd y ceiliog yntau â phlu ei wddf ar ffurf ambarel. Wedi ymlid ei gilydd ar draws y buarth ac i lawr y lôn, a'r un o'r ddau aderyn am ildio'r un gronyn, daethant at lain o dir ac yno y diweddwyd y gwmffast. Bu i'r frwydr dan sylw bara rhyw ddeng munud i gyd ac yna tawelodd y cyfan.

Ailddychwelodd y paun at yr hyn a wnâi'n flaenorol, sef pigo'r ddaear, a dechreuodd fy ngwas i, sef y ceiliog, glochdar yn uchel, yn union fel petae'n cyhoeddi mai ef oedd y buddugwr. Ac yna distawodd. Pwy ddaeth i'r golwg ond ei fam. Gwibiodd yntau ati, a rhyw olwg yli'r-garmp-a-wnes-i arno. Hwyrach wedi meddwl mai chwarae oedd y cyfan a ddigwyddodd. Hwyrach yn wir nad oedd y cyfan ond rhagbaratoad at bethau mwy, sef bod rhaid mewn hyn o fyd wrth drefn ar ffurf amddifniad os am ddysgu byw.

YN YR ARDD!

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

Ar Ben Arall y Lein

Mae wedi bod yn waith go galed i geisio cadw'r ysbryd i fyny ar ôl y problemau a oedd yn gysylltiedig â Llyn Padarn. Nid oes raid ymhelaethu ar hyn gan fod digon wedi ei ddweud dros y blynyddoedd. Ond wrth gwrs roedd y broblem mor ddifrifol fel y buasem heddiw yn gweld llyn ac afon wedi eu diffetha drwy llygredd.

Oes, credwch neu beidio, mae deng mlynedd wedi pasio er i'r problemau amlygu eu hunain, a saith mlynedd cyn i'r mater ddod o flaen y llys. Wedyn daeth yn 1999 cyn i'r peiriant glanhau ffosffates yng ngwaith carthffos Llanberis ddechrau gweithio yn iawn.

Deng mlynedd o gerdded pyllau gwaelod yr afon heb weld ond rhyw ychydig o sewin ble roedd cynt heidiau, ond, yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae cynnydd mawr wedi ei weld yn ymfudiad y *sils coch* am y môr yn ystod misoedd cynnar y tymor. Dilyniant hyn oedd gobeithio gweld nifer y sewin yn cynyddu'n sylweddol. Yn wir roedd mwy i'w gweld drwy 2001. I'r rhai sy'n gofalu am y cynllun gwella, eleni oedd o flwyddyn dyngedfennol, os na fuasai gwelliant sylweddol yn y nifer yna mi fuasai'n amlwg fod problem enfawr arall yn tarfu ar y sustem.

Yn ystod yr ail wythnos yng Ngorffennaf es i lawr i byllau isa'r afon. Y lle cyntaf i fynd, yn naturiol, oedd Llyn Crwn. Ni welais sewin yma dros y deng mlynedd diwethaf. Ni allwn i na Gwyndaf Jones o Fethel gredu'r olygfa, sef nifer helaeth o sewin braf yn llonydd ar waelod y pwll. Oddi yno i Lyn Wercws, ger Ysbyty Eryri, eto yno roedd nifer fawr o sewin yn fflachio'u ochrau arian yn y llif. Y nosweithiau wedyn cafodd Gwyndaf nifer o sewin i'r rhwyd o ardal Gallt y Sil.

Mi es innau y noson hono am Llyn Doctor gyda Gwynfor Jones. Ni chawsom helfa, ond cawsom wledd arbennig. Tra'n eistedd dan y coed yn disgwyl iddi nosi, daeth cynnwrf ar wyneb y llyn, dim mwy na rhyw ddeg llath oddi wrthym. Yn sydyn daeth pen dau ddyfrgi i'r golwg a dechrau codi i ben carreg fawr yng nghanol yr afon. Yn sydyn stopiodd y ddau, ac, er ein bod yn llonydd a tawel, roeddynt wedi synhwyro ein presenoldeb cyn gynted a dacthent i'r golwg. Diflannodd y ddau yn ôl o dan y dwfr. Profiad arbenig yn wir.

Yn rhyfedd iawn adroddodd pysgotwr arall ddigwyddiad yr un fath ar yr un noson, pan ddaeth dau ddyfrgi arall allan or afon rhyw ychydig lathenni oddi wrtho. Digwyddodd hyn yng Nghaeau 'Rafon, Caernarfon. Arwyddion arbennig eto fod pethau'n prysur wella.

Sut mae'r dal medda chwi. Wel, mae trigolion a chyn-drigolion pentref Bethel i weld yn perfformio'n arbennig. Clifford Thomas, nawr o'r Felinheli, sydd i weld ar y blaen gyda nifer o sewin i'w enw. Rwyn credu mai 4 pwys yw'r trymaf i'w rwyd. Bert Japheth, nawr o Gaernarfon sydd, i fyny i rwan, gyda'r sewin trymaf, sef un ychydig dros 6 phwys a Crawia, gyda Gwynfor Jones sy'n dal i fyw yn y pentref gyda un am bron i 5 pwys. Gwyndaf Jones eto o Fethel yn cael hwyl go dda eleni, er ei fod yn dweud ei fod rhy brysur i 'sgota. Mae wedi cael ychydig o sewin o ardal Caernarfon i'r Seiont a hefyd rhyw ychydig, meddai wrthyf, o'r Llyfni, yn ogystal â nifer o frithyll brown da o'r Gwyrfai.

Mae Llyn Padarn wedi 'sgota'n eithiaf da am y torgoch, gyda'r hwyl gorau hyd yn hyn wedi ei gael yn ystod y tair wythnos gyntaf o Awst. Huw Williams a Bert Parry, Llanberis, rwyn clywed sydd yn cael hwyl reit dda. Mae Gordon Hampson a Dave Bulman, Sir Fôn, wedi cael digon am swper medda nhw. Yn ôl pob golwg mae Dr Robin Parry wedi gorfod mynd i'r Eidal, mae'r torgoch yn haws ei dal yno medda nhw.

Mwy mis nesaf, felly hwyl a fflag arni am y tro.

Huw Price Hughes.

'Nefar in Iwrop' – gawn ni weld!

A minnau'n gofidio am golled Marc Lloyd Williams o glwb Bangor, a cholli ambell stori mae'n siŵr – daeth un arall o'r fro i lenwi'r bwlch. Wedi cyfnod yn Lerpwl ac yna Blackpool, mae Eifion Jones wedi ei ryddhau ac mae wedi ymuno â chlwb Farrar Road. O gofio ei oedran a'i allu bydd hwn yn gaffaeliad mawr i dîm Peter Davenport: tîm sydd yn bendant yn anelu i chwarae pêl-droed atyniadol. Ac yna'r taldra. Yn y gemau cyfeillgar ar ddechrau'r tymor gwelwyd enw Eifion ymysg y sgorwyr hefyd. Ar hyn o bryd nid yw wedi arwyddo cytundeb gyda Bangor, gan efallai y bydd cyfle i ailymuno â'r rhengoedd proffesiynol rhyw dro. Serch hynny, peth anodd fydd hynny, gan gofio y cynifer o chwaraewyr sydd wedi eu rhyddhau o'r clybiau proffesiynol wedi trafferthion arian teledu.

O ran profiad, mae Eifion wedi dod ar gyfnod cyffrous gyda'r clwb yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Cwpan UEFA. Cafwyd buddugoliaeth o 1-0 ar y Cae Ras yn erbyn FKSartid. Erbyn i chwi dderbyn yr Eco, byddwn yn gwybod a fydd y gleision drwodd i'r ail rownd. Cafodd gêm dda mewn uned amddiffynol gadarn yn Wrecsam – hen dir pori ei dad, sawl tymor yn ôl.

Y mae'n bwysig i Fangor ennill y gêm oherwydd datblygiad pwysig y mae Cynghrair Cymru yn ceisio'i greu. Y bwriad yw creu stadiwm arall yn y gogledd sy'n cyfarfod â gofynion UEFA ynglŷn â meysydd ar gyfer cystadlaethau Ewrop. Hynny yw, stadiwm gyda mwy na 3,000 o seddau. Yn amlwg buasai tir ar gyrion Bangor yn ddelfrydol i'w ddatblygu. Rhaid cofio fod y clybiau 'llai' yn colli arian trwy orfod mynd a gemau i Wrecsam o hyd. Yn sicr buasai mwy nag 800 wedi troi i fyny ar Ffordd Farrar i weld y gêm. Yn Ewrop, rhaid gwneud elw ar y gemau cartref.

Y tymor yma, dilyn Eifion ledled Cymru – a gobeithio Erwop – y byddwn ni a, gyda llaw, Cymro Cymraeg arall at y criw cynyddol ym Mangor – mor wahanol i'r sefyllfa ar yr Oval, a'i charfan estynedig.

Cydymdeimlwn hefyd ac un o gyn-chwaraewyr Llanrug, sef Wayne Phillips, a gafodd anaf difrifol i'w goes yn gêm gynta'r tymor i glwb Wrecsam. Gobeithio y caiff lwyr wellhad ac estyniad i'w yrfa.

A sôn am Lanrug. Llongyfarchiadau i'r pwyllgor gweithgar ar yr olwg drwsiadus ar, ac oddi ar, y cae yn Eithin Duon. Esiampl i lawer clwb o safon uwch anelu ato.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES
GARTH MAELOG
51 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870840

Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC *WINDOWS*
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG
NMBC
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

Jones
Contractwyr Trydan
Goleuadau Argyfwng ac offer Larwm Tân
Gwasanaeth i Gymru Gyfan
Aelod o
NICEIC
Contractwyr Trydan
Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol
&
Whitehead Cyf.
Prif swyddfa
Penrala, Tregarth, Gwynedd
Ffôn: 01248 601257
Ffôn (nos):
01248 600477 a 601011
Ffacs: 01248 601982

CROESAIR MEDI



1 ar draws (4-3) o waith 34 ar draws (5,5) ydi 9, 17, 21 ar draws a 24 i lawr

Ar Draws:

5 Un wedi marw (9)
9 Tref glan y môr (10)
10 Pren tywyll (5)
12 Y ferch o ffynnon Jacob? (3)
13 Gwyddor trefnu ffermydd (9)
14 Gwlybwr di-liw heb flas nac arogl (3)
15 Y rhan o'r harnais sy'n pasio dan gynffon y ceffyl gwedd (7)
16 Y rhai sy'n cynorthwyo y Prifathro (9)
17 Llawenydd (8)
21 Hen blas nepell o 9 ar draws (8)
24 Sawr y meddw, meddw. Y cablwr! (9)
25 Cymysglyd ac anhrefnus (7)
28 Gwiriondeb mewn cyfrol o luniau'r ardal (3)
29 Clwyd i'r ieir gysgu arno (9)
30 Mae'r sais digalon yn ddiysgog (3)
32 Achub rhywun o garchar Bedford? (5)
35 Addfwynder (9)
36 Mynd o dan y dŵr (7)

I Lawr

1 Carw benywaidd (5)
2 Mae hufen wedi ei gorddi o gwmpas y trydydd o Ionawr yn ymgyffroi (7)
3 Enllib (7)
4 Yn ddig neu lidiog. O anian y cibau? (7)
5 Brenhinol (8)
6 Caer nepell o Wrecsam (9)
7 Tywyllu (3)
8 Metel wedi ei dynnu i ffurf cortyn (7)
11 Ymdopi i ymladd? (6)
14 Y pen arall i'r dechrau! (5)
15 Prydferth (3)
18 Erfyn eillio (5)
19 Griddfan (9)
20 Rhoi clod a bri i rhywun (6)
22 Pwrpas y bennod? (3)
23 Un sy'n hel pethau at ei gilydd (8)
24 Canmoliaeth (7)
25 Cymedroldeb ynglŷn â diodydd meddwol (7)
26 Gŵyl Werin yn Llandysul (1,6)
27 Pelydrau pwerus o olau (7)
31 Gweithwyr y corff? (5)
33 Bach o ran hyd (3)

Derbyniais atebion i groesair Gorffennaf gan Pat Owen, Caerfyrddin; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Jean Hughes-Jones a Catherine A. Jones, Pencaerau; Olwen Jones, Bethel; Nansi Davies, Rhuthun; Eluned Jones, Trefor; Moreen Lennon, Vera Griffiths, Nan Owen ac Olwen Owen, Llanberis; Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon; Dafydd Owen, Eirian Roberts a Ceridwen Williams, Llanrug; E.E. Jones, Rhoshirwaun; N. Hughes, Cwm-y-glo; H. O. Hughes, Pwllheli; G. Gill, Bangor; A. M. Griffith a Megan Morris, Dinorwig; Rhiannon Pritchard-Jones, Jennie Williams ac M. P. Jones, Clynnog Fawr.

Ymgais H. O. Hughes, Tan y Graig, Penlon Llŷn, Pwllheli ddaeth allan o'r het. Llongyfarchiadau a £5 i chwi.

Ar ôl cwblhau croesair mis Medi, anfonwch eich atebion i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Medi 16

Cofnogwch ein Hysbysebwyr

RHODDION

£25: Mrs Marian Roberts.
£20: Er Cof am Hughie Jones, Catherine a Richie.
£10: B. Lewis, 3 Rhes Efrog, Llanberis; Megan a Bert (gynt o Lanberis); Côr Lleisiau Lliwedd; Dr W. H. Munro, Corby; Dr Dan Hughes, Llanrug; Griff Roberts, Tŷ Gwyn, Llanrug er Cof am Gwyneth; Mr a Mrs Derek Williams, Bron Elidir, Dinorwig; Mr a Mrs Alwyn Jones, 5 Bro Elidir, Dinorwig.
£7: Er cof am Gwen Davies, Neston.
£5: Huw a Margaret, 2 Bryn Teg; Edryd, 28 Maes Padarn, Llanberis; Mr a Mrs Lewis, Madryn House, Llanrug; Ann Ellis Williams, Y Ddolwen Fach; William a Mair James, Bro Eglwys; Di-enw, Llanrug; Mr a Mrs D. Greasley, Min Afon, Waunfawr; Mr a Mrs Dylan Lewis, 3 Bro Elidir, Dinorwig.
£3: Di-enw.
£2: Sharon Hughes, Tan y Clogwyn, Betws-y-coed.

Atodiad LLANRUG

DIOLCH. Dymuna Mrs Maggie Lewis ddiolch yn fawr am yr holl gardiau a blodau a anfonwyd iddi ar achlysur colli ei mab, Nowi, yn Llanberis, ac i Beryl, ei briod am ei gofal ohono yn ei gystudd. Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at Gymdeithas Cyfeillion Ysbyty Eryri a Meddygfa Llanberis

Y SEFYDLIAD COFFA. Dymuna Pwyllgor y Sefydliad Coffa ddiolch i Wendy a Geraint, Penbont am drefnu 'Sesiwn Fach Llanrug' (neu 'Ddiwrnod i'r Brenin', gan fod y frenhines yn dathlu yn Lloegr!) i godi arian tuag at Y Sefydliad. Diolch hefyd i'r holl grwpiau/ bandiau a fu'n diddori'r pentrefwyr drwy'r dydd a'r nos. Mae'n braf sylweddoli fod cymaint o dalentau cerddorol amrywiol lleol yn bodoli ac yn cael eu gwerthfawrogi. Diolch hefyd i unigolion eraill a fu'n cynorthwyo gyda'r trefniadau ar y diwrnod.

Mae cryn ddefnydd o adeilad Y Sefydliad wedi bod dros fisoedd yr haf, a disgwylir y bydd llawer mwy o weithgareddau'n cael eu cynnal yno dros y gaeaf. Mae nosweithiau Llun, Mawrth, Mercher a Iau eisoes bron yn llawn o hyn hyd y Nadolig, ac amryw Sadyrnau hefyd wedi eu llogi. Bydd Coleg Menai yn cynnal Diwrnod Cofrestru ar gyfer Cyrsiau Cyfrifiaduron ar ddydd Iau, Medi 5ed rhwng 10 ac 11 y bore, a 4 a 5.30 yr hwyr. Dyma gyfle i ddysgu'r dechnoleg newydd ar stepan eich drws.

I'r cymdeithasau eraill sydd heb archebu ystafelloedd ar gyfer eu gweithgareddau, yr unig gyngor yw: 'y cyntaf i'r felin.....' Cysylltwch â'r ysgrifennydd, Dafydd Whiteside Thomas (ffôn: 673515) am fwy o wybodaeth a thelerau.

DYMUNA Mrs Gwladys M. Jones, Y Dalar Deg, ddiolch o galon am garedigrwydd gan gymdogion a cyfeillion draw ac yma ar ddiwrnod ei phen-blwydd ar 19 Awst.

CAB GWYNEDD & DE YNYS MÔN
Bangor • Caernarfon • Dolgellau • Pwllheli

cyngor ar bopeth

Rydym angen

GWIRFODDOLWYR

Ydych chi'n ddibynadwy ac yn gallu rhoi chwe awr o'ch amser bob wythnos? Nid oes angen profiad na sgiliau arbennig, cewch hyfforddiant llawn.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch:

(01286) 677013

antur WAUNFAWR

Cynllun Dodrefn

Mae'r Cynllun yn brin o gyfraniadau **nwyddau trydanol,** yn arbennig poptai, oergelloedd, peiriannau golchi a rhewgelloedd fyddai'n addas i'w cleientau ar incwm isel

Gwasanaeth casglu rhad ac am ddim

☎ 01286 674 155
www.anturwaunfawr.org

ANTUR WAUNFAWR

NATIONAL LOTTERY CHARITIES BOARD

CHWARAEON

Casglwr Medalau

Iwan Morris a chnwd arall o fedalau.

Yr oedd cwestiwn yn un o'r papurau dyddiol yn ddiweddar yn gofyn pa bêl-droediwr Prydeinig oedd wedi ennill y nifer mwyaf o dlysau. Yr ateb oedd Kenny Dalglish, a fu'n ffodus i chwarae i Glasgow Celtic a Lerpwl pan oedd y ddau glwb yna mewn bri. Casglodd ambell dlws fel rheolwr/chwaraewr a rheolwr hefyd. Y nifer mwyaf o dlysau a gasglwyd gan unigolyn mewn un clwb yw 16 – record a rennir gan Alan Hansen a Phil Neal tra'r oedd y ddau yn chwarae yn lifrau Lerpwl.

Yma ym mro'r Eco, mae un arall sydd â chasgliad rhyfeddol o fedalau, yn y pwll nofio ac ar y trac. Erbyn hyn mae Iwan Morris o Fethel yn ddeunaw oed ac, ers sawl blwyddyn bellach fel disgybl yn Ysgol Pendalar, mae wedi cymryd rhan yn Chwaraeon Arbennig Cymru. Eleni – fel pob dim arall mae'n ymddangos – yng Nghaerdydd y cynhaliwyd y gystadleuaeth fis Gorffennaf. Unwaith eto roedd Iwan ar ei orau a dychwelodd gartref gyda 5 medal aur, 2 fedal arian ac un fedal efydd. Yn wir, mae Iwan yn dipyn o Daley Thompson, yn troi ei law at sawl camp.

Yn y pwll nofio daeth medal aur yn y rasus 25m ar y frest; 25m ar y cefn ac fel aelod o'r tîm ras gyfnewid 4x25m. Yn y ras 25m dull rhydd daeth y fedal arian iddo, ac efydd yn y ras 50m dull rhydd. Yna i'r trac a dangosodd ei ddawn yma eto. Cyflawnodd y dwbl yn y ras gwibio, gyda medalau aur yn y ras 100m a 200m. Yn rhyfeddol, roedd ganddo ddigon o nerth i ennill y fedal arian wrth daflu'r pwysau – wyth medal i gyd.

Fwyfwy heddiw gallwn ryfeddu at ddoniau a dycnwch yr athletwyr arbennig hyn. Drwy ddyfalbarhad eu cefnogwyr maent yn cael llawer mwy o sylw a braf oedd gweld cydnabyddiaeth y dorf yng Ngemau'r Gymanwlad ym Manceinion yn ddiweddar. Yr oedd y gemau hyn yn garreg filltir bwysig o ran cydnabyddiaeth a statws i'r athletwyr arbennig hyn – athletwyr sydd mor ddiymhongar yn aml.

Llongyfarchiadau Iwan a gobeithio y bydd angen y Brasso ar mam am lawer blwyddyn arall i gadw sglein ar y medalau.

I'r Copa Dros Glwb Llanrug

Ystrydeb y dyddiau hyn yw darllen mewn papurau newydd am chwaraewyr pêl-droed yn cyrraedd y brig neu uchelderau gyrfa trwy wneud cyfraniad neilltuol mewn gêm arbennig neu tuag at lwyddiant arbennig clwb. Ond dyna'n union yn ddiweddar wnaeth Aled Roberts, ond y tro hwn nid gyda'r bêl wrth ei draed.

Bu'n aelod blaenllaw o dimau Clwb Pêl-Droed Llanrug ers blynyddoedd, ond llynedd oherwydd anaf nid oedd hi'n bosib iddo chwarae llawer o gemau a chyfrannu gymaint ag arfer.

Mewn ymdrech i wella ei ffitrwydd erbyn y tymor pêl-droed newydd dechreuodd redeg, a thra bod ambell i chwaraewr arall yn cael egwyl haeddiannol, gwelwyd Aled yn rhedeg ar ffyrdd yr ardal. Bu ei ymdrechion mor llwyddiannus fel iddo osod nod arall iddo'i hun, sef i redeg Ras yr Wyddfa ac i wneud hynny mewn amser teilwng. Ar Orffennaf 25 gwireddwyd ei obeithion a dychwelodd yn ôl o'r copa mewn amser o awr, 51 munud a 31 eiliad.

Yn ôl ei arfer cytunodd i gefnogi ei glwb lleol, drwy i'w ymdrech ddenu nawdd, a bu llawer yn dyfalu beth fyddai'r union amser y byddai'n dychwelyd a chroesi'r llinell derfyn.

Golygai ei ymdrech y bydd y clwb yn gyfoethocach o dros bum cant punt.

Credaf bod yr hanes yma ynddo ei hun yn werth ei gofnodi, ond nid dyna ddiwedd y stori.

Pwy feddyliech chi oedd un o'r tri enillydd a ddyfalodd ei amser yn gywir. Ei henw oedd Gwenda Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Ia, neb llai na mam Aled ei hun ac fe'n sicrheir nad oedd unrhyw anfadwaith na thwyll yn y dyfaliad cywir! Does neb yn 'nabod mab yn well na mam medda nhw!

Llongyfarchiadau i Aled (a'i fam)

Y Darbi Cyntaf

Ar noson boeth iawn denwyd torf dda i'r Bwthyn i weld Llanrug yn herio Deiniolen. Wedi curo Nefyn o 3-0 roedd y tîm cartref yn ffyddiog. Tîm ieuanc sydd yn Neiniolen eleni, gyda'r tri hen ben – Dai Jones, Mark Jott ac Andrew Keith i'w gyrru ymlaen. Y mae digon o frwdfrydedd yn eu chwarae ond roedd eu diffyg profiad o flaen gôl i gostio'n ddrud iddynt.

Y mae Llanrug, ar y llaw arall, dan ofalaeth Gwyn Davies a Bedwyr Evans – gyda Dafydd Mona yn hyfforddi – wedi hel tîm o sawl cyfeiriad. Siomedig oedd eu perfformiad ar y cyfan, gyda amharodrwydd yng nghanol cae i weithio oddi ar y bêl!

Mae cae cul Deiniolen yn anodd i greu patrwm o chwarae arno, ond nid oedd hyn yn esgus am y cicio hir dibwrpas a welwyd gydol y gêm. Mae'n dweud llawer pan mae'r tafliad hir gan y ddau dîm yn un o'r opsiynau ymosodol mwyaf cyffredin. Di-sgôr oedd hi ar yr hanner, gyda'r cyfleon gorau yn dod i Ddeiniolen – a oedd yn dangos tipyn mwy o 'gythraul' ar y noson. Trueni fod y brwdfrydedd weithiau yn achosi methu ambell gyfle ble buasai 'hen ben' wedi manteisio. Yr agosaf at gôl oedd ergyd Andrew Williams i Lanrug a darodd y trawst.

Roedd hanner cyntaf yr ail gyfnod yn ddi-fflach hollol gyda digon o'r cicio hir dibwrpas. Yna allan o ddim daeth unig gôl y gêm. Peter Hughes ar ochr chwith y cwrt cosbi yn taro ergyd droed chwith a gurodd Keith ar ei bostyn agosaf. Er i Ddeiniolen frwydro yn ôl a chreu sawl hanner cyfle, Llanrug orffennodd gryfaf a chliriwyd dau gyfle oddi ar linell Deiniolen.

Efallai bod y gêm ddarbi wedi dod yn rhy fuan i'r ddau dîm – cyn i 'gythraul' y tymor wir danio. Mae addewid yn ieuenctid Deiniolen, ond rhaid iddynt greu dull o chwarae ar eu maes eu hunain fydd yn eu galluogi i ennill digon o bwyntiau i aros i fyny. Mae addewid yn nhîm Llanrug hefyd ond rhaid wrth lawer mwy o waith gan rai chwaraewyr, sydd ond yn amlwg pan mae'r bêl ganddynt. Amser a ddengys os yw argraffiadau un gêm ddarbi yn gynnar yn y tymor yn dal dŵr.

Ar dy Feic

Y mae rasus beicio yn un gamp na chafodd fawr o sylw gen i ar y tudalennau chwaraeon. Eto y mae beicio yn elfen bwysig o oriau hamdden sawl un yn y cylch. Y mae datblygiad y gwahanol 'ffyrdd beicio' ledled y sir wedi cynyddu'r diddordeb. Y mae llawer o'r fro hefyd yn aelodau o wahanol glybiau beicio sy'n cystadlu'n rheolaidd.

Yn ddiweddar cynhaliwyd ras chwe milltir o hyd yn yr ardal wedi ei threfnu a'i noddi gan *Energy Cycles* o Lanberis. Denwyd rhyw 25 o feicwyr i gyd, a nifer ohonynt yn wŷr lleol. Nid ras ar y gwastad mo hon o gwbl, ac yr oedd llawer yn tystio fod y cwrs yn brawf teilwng, nid yn unig o ffitrwydd a chryfder, ond hefyd o dechneg.

Yr oedd y cwrs yn arwain o Ben Llyn, gan ddringo i'r Fachwen, ymlaen i Ddinorwig, ar hyd y llwybr ar lethrau'r Elidir gan orffen yn y 'Search Pond'. Digon o chwysu a'r mwyafrif yn gorffen y cwrs mewn amser da iawn.

Cofiwch, os oes gennych unrhyw stori yn ymwneud â'r campau 'lleifrifol' gadewch i mi wybod.

Dyfed Whiteside Thomas, yn pydru mynd ger yr hen ysgol yn Fachwen.